

# ASTUDIAETH DWRISTIAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU

ADRODDIAD CAM 2 – HYDREF 2022

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 5 |
| 1.1 | Ein Gwaith | 6 |
| 2 | Tystiolaeth y Farchnad | 7 |
| 2.1 | Cyd-destun Strategol | 7 |
| 2.2 | Cyd-destun Twristiaeth | 8 |
| 2.3 | Archwilio asedau | 11 |
| 3 | Ymgysylltu | 14 |
| 3.1 | Ymgysylltu â rhanddeiliaid | 14 |
| 3.2 | Arolwg | 19 |
| 4 | Gweledigaeth ar gyfer Twristiaeth yn y Canolbarth | 21 |
| 4.1 | Gweledigaeth | 21 |
| 4.2 | Amcanion | 21 |
| 4.3 | Cynnyrch | 22 |
| 4.4 | Clystyru | 23 |
| 4.5 | Damcaniaeth Newid | 25 |
| 5 | Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi | 29 |
| 5.1 | Dull gweithredu | 29 |
| 5.2 | Asesiad Ansoddol | 30 |
| 5.3 | Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi | 32 |
| 6 | Monitro a Gwerthuso | 68 |

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

## GWELEDIGAETH STRATEGOL

"Manteisio'n llawn ar effeithiau cadarnhaol twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy er budd cymuned Canolbarth Cymru. Byddwn yn gwneud hyn trwy fuddsoddi mewn profiadau a chyfleoedd ystyrlon sydd wedi'u gwreiddio yn lleoedd a diwylliant unigryw'r rhanbarth."

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWERTHOEDD** | Dilys | Unigryw | Chwilfrydig | Cyfrifol | Teg | Croesawgar | Ansawdd |
| **AMCANION** | Twf cynaliadwy | Gwasgariad ymweliadau | Cynigion wedi'u clystyru | Seilwaith ymwelwyr | Partneriaethau cyhoeddus/preifat | Cyflogaeth ystyrlon | Diogelu'r amgylchedd |
| **CYNNYRCH** | Yr awyr agored a'r dirwedd | Dan do a thrwy gydol y flwyddyn | Twristiaeth digwyddiadau | Bwyd a chynnyrch | Y celfyddydau a diwylliant | Canol trefi | Heddwch |

## CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER BUDDSODDI

Nod y Cynllun Gweithredu yw datblygu economi ymwelwyr Canolbarth Cymru trwy wella ac ehangu asedau presennol a gwella strwythurau cymorth y sector. Mae'r argymhellion buddsoddi a'r camau nesaf i'w gwireddu wedi'u dosbarthu ar sail y categorïau canlynol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llety | Y celfyddydau, diwylliant ac ysbrydegaeth | Yr awyr agored a'r amgylchedd | Digwyddiadau a bywiogrwydd | Twristiaeth gorfforaethol |
| Cyfleusterau sylfaenol | Trafnidiaeth | Adnoddau | Marchnata a hyrwyddo | Trefniadaeth a strwythur |

# 1 Cyflwyniad

Mae Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys siroedd Powys a Cheredigion, yn gartref i amrywiaeth arbennig o dirweddau, aneddiadau dynol, a diwylliannau. Ar yr un pryd, mae'n gartref i draddodiadau unigryw, hanes a threftadaeth arwyddocaol, ac arloesedd, technoleg, a busnes blaengar. Does unman tebyg yng Nghymru, nac yn wir yn y Deyrnas Unedig.

Oherwydd maint ac amrywiaeth Canolbarth Cymru, mae llawer i'w weld yn yr ardal, gan gynnwys traethau heb eu difetha a mynyddoedd sy'n agored i'r gwynt, trefi marchnad prysur, celf a chrefft cyfoes, digwyddiadau a gwyliau o'r radd flaenaf, a bwytai seren Michelin.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig i'r rhanbarth yn economaidd, ac mae'n cynnal swyddi a busnesau. Serch hynny, mae effaith twristiaeth – cadarnhaol a negyddol – wedi bod yn llai amlwg ar Ganolbarth Cymru o'i gymharu â'r Gogledd a'r De, sy'n gyrchfannau proffil uchel sydd wedi hen ennill eu plwyf. Nid yw'r effaith yn cael ei lledaenu'n gyfartal, sy'n golygu bod rhannau o'r rhanbarth yn llawn iawn yn ystod y tymor prysur, tra mai prin yw’r ymwelwyr mewn rhai llefydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Roedd pandemig COVID-19 wedi amharu'n enfawr ar yr economi fyd-eang, ac roedd twristiaeth a lletygarwch ymhlith y sectorau a niweidiwyd waethaf. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, roedd llawer o bobl a sefydliadau wedi ail-werthuso eu blaenoriaethau a'u dyheadau yn sgil y pandemig, a bydd y newid hwn yn parhau i effeithio ar ddewisiadau pobl o safbwynt patrymau byw, gweithio, a theithio yn y dyfodol.

O'r herwydd, dyma adeg ddelfrydol i ystyried dyfodol twristiaeth ledled y Canolbarth.

Bydd gweledigaeth a strategaeth glir, gyda chanllawiau ar flaenoriaethau a gofynion buddsoddi dros y blynyddoedd nesaf, yn golygu bod modd i'r rhanbarth ddatblygu ei gynnig i ymwelwyr, ei seilwaith a'i economi mewn ffordd sy'n gallu manteisio ar effeithiau cadarnhaol twristiaeth i'r holl drigolion, lleihau effeithiau negyddol gormod o dwristiaeth ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu i gyd.

Bydd y strategaeth yn helpu awdurdodau lleol, busnesau, a sefydliadau cymunedol i gydweithio'n agosach, gan ddarparu cyfleoedd newydd i drigolion.

Bydd yn sicrhau bod gan y rhanbarth gynnig unigryw mewn marchnad fyd-eang orlawn, gan helpu i greu profiadau dilys y mae'r teithiwr cyfoes yn chwilio amdanynt, heb esgeuluso cynulleidfaoedd presennol.

Mae'r Astudiaeth Dwristiaeth Ranbarthol hon yn amlinellu'r camau cyntaf ar hyd y daith, gan sefydlu gweledigaeth a chyfres o flaenoriaethau buddsoddi y gellir eu datblygu ymhellach wedyn. Bydd angen amser ac adnoddau i gydgysylltu a chyflawni argymhellion yr Astudiaeth yn effeithiol, a bydd angen cydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r astudiaeth hon yn dwyn ynghyd ystod eang o waith ymchwil, ymgysylltiad helaeth â busnesau a sefydliadau twristiaeth lleol, a'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'r DU a thu hwnt, gan ddarparu cyfeiriad cadarn a rennir ar gyfer buddsoddi yn nhwristiaeth Canolbarth Cymru wrth symud ymlaen.

## 1.1 Ein Gwaith

Comisiynwyd Fourth Street a Chris Blandford Associates ym mis Chwefror 2022 gan Tyfu Canolbarth Cymru i lunio Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru. Diben yr adroddiad yw arwain datblygiad cynaliadwy hirdymor twristiaeth yn y rhanbarth.

Cwmpas y gwaith oedd cynnal adolygiad strategol o asedau a seilwaith twristiaeth yn y Canolbarth a nodi cyfres o gyfleoedd buddsoddi ac ymyriadau ategol er mwyn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer twristiaeth yn y rhanbarth.

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Dadansoddiad o'r cyd-destun polisi strategol. Hefyd, bydd angen i'r Cynllun Gweithredu ymateb i flaenoriaethau strategol eraill a nodir mewn amrywiaeth o ddogfennau polisi presennol. Rydym wedi cynnwys amcanion polisi cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol yn y dadansoddiad hwn, yn ogystal ag adolygiad o Gynlluniau Rheoli Cyrchfannau perthnasol (Adran 2.1).
- Dadansoddiad o'r sector twristiaeth ar hyn o bryd ledled y Canolbarth, gan gynnwys dynameg twristiaid domestig a rhyngwladol sy’n cyrraedd ledled y rhanbarth (Adran 2.2).
- Archwiliad Asedau sydd wedi'i gynnal fel rhan o'r prosiect hwn er mwyn darparu dealltwriaeth o asedau twristiaeth presennol, gan gynnwys deall eu cryfder a'u gwendidau, y bylchau a'r cyfleoedd (Adran 2.3).
- Crynodeb o'r ymgynghoriadau niferus â rhanddeiliaid a gyflwynir trwy Ddadansoddiad SWOT manwl (Adran**Error! Reference source not found.**), a dadansoddiad o'r ail gam ymgysylltu, gan ymestyn i'r sector preifat a'r trydydd sector (Adran **Error! Reference source not found.**).
- Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd ar gyfer twristiaeth yn y rhanbarth, a fydd yn llywio datblygiad a buddsoddiad yn y sector (Adran 4).
- Yr ymyriadau wedi'u categoreiddio sy'n creu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi, ynghyd â'r camau nesaf ar gyfer cyflawni pob ymyriad (Adran 5).

Ategir y ddogfen hon gan adroddiad Sylfaen Dystiolaeth, sy'n cynnwys rhagor o fanylion a thystiolaeth ar gyfer y weledigaeth a'r strategaeth a amlinellir yma.

# 2 Tystiolaeth y Farchnad

Er mwyn cefnogi ac arwain y Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi, gwnaed gwaith ymchwil cefndir helaeth. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r dadansoddiad o gyd-destun strategol Canolbarth Cymru, cyflwr presennol y farchnad dwristiaeth, ac asesiad manwl o'r asedau twristiaeth. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad ar y sylfaen dystiolaeth.

## 2.1 Cyd-destun Strategol

Mae ein hadolygiad o bolisi strategol wedi amlygu sawl thema sy'n gyffredin i flaenoriaethau sawl sefydliad ledled y Canolbarth. Rydym wedi cynnwys amcanion polisi cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol yn y dadansoddiad, yn ogystal ag adolygiad o Gynlluniau Rheoli Cyrchfannau perthnasol. Mae themâu sydd wedi dod i'r amlwg dro ar ôl tro yn y llenyddiaeth yn cynnwys:

- **Yr Economi ac Arloesi** – yn enwedig yn ymwneud â meithrin dull gweithredu cydweithredol rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus ac addysg a'r trydydd sector, ac ar bwysigrwydd creu swyddi gydol y flwyddyn yn y sector twristiaeth, sy'n cynnwys llwybrau gyrfa clir ac uchelgeisiol, er mwyn helpu i wrthdroi allfudo a chefnogi busnesau presennol.
- **Yr Amgylchedd** – dull gweithredu cynaliadwy, buddsoddi mewn trafnidiaeth a thechnolegau carbon isel, cefnogi teithio llesol, a diogelu tirweddau ac asedau naturiol y rhanbarth.
- **Cymuned ac Iechyd** – rhoi pobl leol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod anghenion cymunedau'n cael eu cydnabod a'u cydbwyso â thwf twristiaeth.
- **Twristiaeth a'r profiad –** newid tuag at deithio ymwybodol, gwerth uwch, gan flaenoriaethu gwariant ac amser aros dros nifer absoliwt yr ymwelwyr. Bydd hyrwyddo ymweliadau gydol y flwyddyn a gwasgaru twristiaeth ledled y rhanbarth yn cynorthwyo'r newid hwn.
- **Diwylliant Cymru –** cynnig Cymreig unigryw, sy'n wahanol i rannau eraill o Gymru a'r DU. Gallai'r cynnig hwn fanteisio'n rhannol ar bwysigrwydd hanesyddol a phresennol y Gymraeg yn y Canolbarth.
- **Dysgu a sgiliau -** pwysigrwydd cyfleoedd addysgol a dysgu ym maes twristiaeth a'r diwydiannau cysylltiedig, i helpu pobl ifanc i gael gwaith yn y sectorau, a darparu cynnydd a dysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y sector er mwyn gwella lefelau cadw staff.
- **Cynnyrch** – Mae'r cyd-destun strategol yn nodi sawl maes cynnyrch allweddol hefyd er mwyn helpu'r Canolbarth i dyfu a datblygu, gan gynnwys:
    - Twristiaeth seiliedig ar ddigwyddiadau o'r radd flaenaf sy'n adlewyrchu cymeriad, diwydiant, a diwylliant lleol
    - Twristiaeth antur a'r awyr agored, gan gynnwys cerdded, beicio, gweithgareddau dŵr, gweithgareddau awyr dywyll ac ati
    - Cynhyrchion sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar iechyd a llesiant ymwelwyr a thrigolion
    - Cryfhau sectorau twf y celfyddydau a diwylliant y rhanbarth, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg, a llenyddiaeth, barddoniaeth, a chaneuon Cymru.

- Cynnig treftadaeth y rhanbarth
- Cryfhau cynnig manwerthu'r rhanbarth yn ogystal â gwella'i drefi a'i bentrefi marchnad hanesyddol
- Sicrhau bod y seilwaith sylfaenol yn ei le er mwyn ategu'r elfennau hyn sy'n denu twristiaid

## 2.2 Cyd-destun Twristiaeth

Cwblhawyd dadansoddiad manwl o'r sector twristiaeth presennol ar draws y Canolbarth, gan gynnwys dynameg twristiaid domestig a rhyngwladol sy'n cyrraedd ledled y rhanbarth. Mae casgliadau allweddol o'n hadolygiad o ddeinameg y sector twristiaeth presennol yn cynnwys:

- Mae lefel anghymesur o dwristiaeth i Gymru yn cyrraedd y Canolbarth. Mae'n cynrychioli 8% yn unig o nifer yr ymwelwyr ac 14% o effaith economaidd twristiaeth yng Nghymru.
- Serch hynny, mae'r rhanbarth yn dod yn fwyfwy poblogaidd ymysg ymwelwyr ac mae mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y newidiadau sy'n digwydd i'r diwydiant twristiaeth. Mae'r tueddiadau yn y diwydiant twristiaeth sy'n berthnasol i dwristiaeth yn y Canolbarth yn cynnwys awydd cynyddol am 'gyrchfannau newydd' a phrofiadau dilys, twf twristiaeth llesiant a thawel, pobl sy'n ymddiddori mewn bwyd yn chwilio am gynigion bwyd unigryw o ansawdd uchel, a thuedd tuag at lety anghyffredin. Mae'r cyfleoedd ar gyfer y Canolbarth yn cynnwys:
  - Gwella mynediad i'r awyr agored fel bod modd i bobl 'ddarganfod' y lleoedd 'newydd' hyn trwy e.e. arwyddion, llwybrau beicio a rhwydweithiau cerdded.
  - Datblygu'r cyfle ar gyfer twristiaeth llesiant trwy gynnig sbâu ac enciliadau, a thrwy gryfhau'r cysylltiad â llesiant a natur, yr awyr agored, a'r awyr dywyll.
  - Hyrwyddo'r cynnig llety anghyffredin ac unigryw sy'n tyfu.
  - Denu teithwyr ymwybodol a chyfrifol trwy hyrwyddo'r Canolbarth fel cyrchfan gwyrdd gan fanteisio ar gynnyrch bwyd lleol, teithio llesol, a pharch at fyd natur.

### Ffigur 1: Dangosyddion twristiaeth allweddol[1]

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | 2019 |
|---|---|
| Ymwelwyr sy'n aros dros nos | 1,366,000 |
| Ymwelwyr dydd | 1,576,000 |
| Gwariant Uniongyrchol (£) | 296,880,000 |
| Effaith Economaidd (£) | 402,940,000 |
| Cyflogaeth Uniongyrchol Cyfwerth ag Amser Llawn | 4,772 |
| Cyfanswm Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn | 5,854 |


**CYNGOR SIR POWYS**

| | 2019 |
|---|---|
| Ymwelwyr sy'n aros dros nos | 1,972,000 |
| Ymwelwyr dydd | 3,011,000 |
| Gwariant Uniongyrchol (£) | 752,800,000 |
| Effaith Economaidd (£) | 1,012,030,000 |
| Cyflogaeth Uniongyrchol Cyfwerth ag Amser Llawn | 10,007 |
| Cyfanswm Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn | 12,651 |


- Mae gan dwristiaeth rôl economaidd bwysig. Mae bron i 20% o swyddi yn y Canolbarth yn gysylltiedig â thwristiaeth. Mae hyn yn uwch na rhannau eraill o Gymru e.e. y Gogledd (2018), lle mae 13% o swyddi yn gysylltiedig â thwristiaeth.
- Creodd twristiaeth £1,000 miliwn o wariant uniongyrchol ac mae'n cyfrannu £1,453 miliwn i'r economi.
- Mae ymwelwyr â'r Canolbarth yn cael mwy o effaith economaidd fesul diwrnod ymwelydd na gweddill Cymru. Mae hyn oherwydd bod cyfran uwch o ymwelwyr yn aros yng nghanolbarth Cymru, a chostau uwch teithiau dros nos. Fodd bynnag, mae ymwelwyr sy'n aros yn gwario llai ar gyfartaledd yn y Canolbarth o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Mae yna gyfle i gynyddu gwariant ymwelwyr sy'n aros trwy, er enghraifft, gynyddu nifer y gweithgareddau hamdden y mae pobl yn talu amdanynt, ymestyn y cyfnod aros, a darparu llety gwerth uwch.
- Mae'r gyfran uchel o ymwelwyr sy'n aros yn y Canolbarth yn arwain at wariant sy'n gysylltiedig â llety, a llai o wariant mewn rhannau eraill o'r economi. Mae angen dargyfeirio patrymau gwario i sectorau eraill cysylltiedig, fel y celfyddydau a diwylliant, hamdden, a bwyd a diod.
- Mae llai o blant / teuluoedd â phlant yn ymweld â'r Canolbarth na chyfartaledd Cymru. Mae demograffeg ymwelwyr â Phowys yn hŷn: mae dros hanner yn 55+, ac mae llai o bobl 35-54 oed yn ymweld na chyfartaledd Cymru. Mae yna sylfaen ymwelwyr ffyddlon, a amlygir gan y lefel uchel iawn o ymwelwyr sy'n dychwelyd, yn debyg i weddill Cymru. Byddai ehangu sylfaen y gynulleidfa i gynulleidfa iau yn debygol o roi hwb i fywiogrwydd ac effaith economaidd twristiaeth.
- Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr â'r Canolbarth yn dwristiaid domestig, o Loegr yn bennaf. 1% o'r holl ymweliadau â'r Canolbarth sy'n cael eu gwneud gan ymwelwyr rhyngwladol. Mae yna gyfleoedd i'r Canolbarth sicrhau cyfran fwy o'r ymwelwyr rhyngwladol â Chymru.

[1]Adroddiadau STEAM

**Ffigur 2: Twf 10 mlynedd o effaith economaidd oherwydd twristiaeth yn ôl sector[2]**





**Ffigur 3: Dosbarthiad sectoraidd gwariant uniongyrchol cysylltiedig â thwristiaeth yn y Canolbarth yn 2019[3]**




[2] Adroddiadau STEAM

[3] Adroddiad STEAM

**Ffigur 4: Dosbarthiad sectoraidd gwariant uniongyrchol cysylltiedig â thwristiaeth yn y Canolbarth yn 2019[4]**




## 2.3 Archwilio asedau

Rydym wedi cwblhau archwiliad cynhwysfawr o weithgareddau twristiaeth cyfredol ledled y rhanbarth, gan gynnwys nodi a chategoreiddio amrywiaeth o atyniadau naturiol a diwylliannol, cynigion llety, darpariaeth manwerthu a bwyd a diod, a'r digwyddiadau pwysicaf yn y Canolbarth. Mae'r archwiliad wedi dangos y canlynol:


- Mae Canolbarth Cymru'n gyrchfan i dwristiaid sydd wedi'i siapio gan ei hunaniaeth ddiwylliannol gref a'i dirwedd wledig unigryw ac amrywiol. Mae mythau a chwedlau Cymru yn rhan annatod o lawer o'r safleoedd hanesyddol a nodweddion y dirwedd naturiol, gan ddarparu cyd-destun ystyrlon i bobl gael blas ar y lleoedd hyn.
- Hefyd, ceir pwyslais penodol ar arfordir Ceredigion, gwarchodfeydd natur a nodweddion dŵr naturiol / wedi'u creu gan ddyn ledled y Canolbarth. Gyda'i gilydd mae'r elfennau hyn yn creu profiad twristaidd a fyddai'n bodloni amrywiaeth o bobl gan gynnwys pobl sy'n hoffi byd natur, pobl sy'n ymddiddori mewn hanes a'r rhai sy'n dymuno archwilio diwylliant unigryw Cymru. Bydd cynyddu a gwella'r rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio a hyrwyddo llwybrau trwy arwyddion a dehongli yn helpu i wasgaru ymwelwyr ledled y rhanbarth a galluogi profiadau dyfnach o hanes a thirwedd yr ardal. Trwy hyrwyddo ac arwyddion â ffocws ar-lein ac mewn safleoedd, gall gwesteion deimlo'n hyderus i archwilio'n ehangach. Mae cysylltu llwybrau trafnidiaeth ag atyniadau a gwella amlder gwasanaethau, ynghyd â darparu gwybodaeth well am

[4] Adroddiad STEAM

amserlenni trafnidiaeth, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn gallu ymweld ag atyniadau yn hyderus ac yn rhwydd.

- Mae'r cynnig i ymwelwyr yn y Canolbarth yn dymhorol ac mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod yn ystod misoedd yr haf. Mae llawer o'r atyniadau yn rhai awyr agored ac mae tywydd gwael yn effeithio arnyn nhw. Mae'r cyflenwad llety'n adlewyrchu natur dymhorol twristiaeth hefyd. Byddai hybu twristiaeth y tu allan i'r tymor prysur yn lleddfu'r pwysau gan ymwelwyr (yn enwedig ar safleoedd hynod boblogaidd) yn ystod y tymor prysur. Byddai darparu cyfleusterau â chysgod ar gyfer safleoedd awyr agored yn sicrhau bod modd i bobl ymweld yn ystod tywydd gwlyb a thymhorau oerach.
- Hefyd, mae'r Canolbarth yn cynnig bwyd traddodiadol o ansawdd uchel, gyda chynhyrchwyr bwyd niferus yn y rhanbarth, gan gynnwys gweithfeydd cochi, ffermydd cig, bragdai, distyllfeydd, a chynnyrch ffres. Mae'n bosibl y bydd ymwelwyr sy'n ymddiddori mewn bwyd yn cael eu denu gan y bwyd amrywiol o safon uchel, sef gwaddol diwydiannau ffermio a physgota'r rhanbarth, a'r nifer cynyddol o fwytai o safon.
- Er bod arlwy'r sector manwerthu'n llawer mwy cyfyngedig, mae'r siopau annibynnol, y siopau crefft a'r orielau yn gryf.
- Mae'r sector llety wedi tyfu'n gyflym yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, yn enwedig unedau llety hunanarlwyo, ac yn ddiweddar, mae nifer yr unedau anghyffredin ac anarferol fel tai coed a chytiau bugail wedi cynyddu. Er mwyn cynyddu gwariant a darparu ar gyfer grwpiau a digwyddiadau mawr, mae angen gwestai mawr o safon uchel, yn ogystal â llety o ansawdd cyson ar gyfer grwpiau mewn coetsis. Mae angen canolbwyntio llai ar feysydd gwersylla a meysydd carafanau, sy'n cyfrannu llai at wariant gan eu bod yn rhatach, ac fel arfer mae ymwelwyr yn dod â'r hyn maen nhw ei angen gyda nhw.

### Ffigur 5: map o atyniadau ymwelwyr, diwylliannol, a naturiol




atyniadau ymwelwyr — atyniadau diwylliannol — atyniadau naturiol

# 3 Ymgysylltu

Roedd ymgysylltu'n hollbwysig yn y gwaith ymchwil ac wrth lywio'r cynllun gweithredu ar gyfer buddsoddi. Cynhaliwyd dau brif weithgaredd ymgysylltu: cyfres o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac arolwg o randdeiliaid a busnesau.

## 3.1 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o gam cychwynnol y gwaith, fe wnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o unigolion a sefydliadau oedd â diddordeb mewn datblygu twristiaeth yn y Canolbarth. Roedd y gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio ar sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol, a lleol (gweler y rhestr lawn o ymgynghoreion isod). Ehangwyd y broses ymgysylltu i gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector yn ystod ail gam y gwaith, fel rhan o'r arolwg (adran 3.2).

Roedd ein hymgynghoriadau'n fuddiol, ac er bod safbwyntiau a syniadau amrywiol wedi'u trafod, cafwyd cryn dipyn o gysondeb rhwng barn unigolion a sefydliadau.

Ffigur 6: Rhestr lawn o ymgynghoreion o'r rownd ymgysylltu gychwynnol

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Gwenfair Owen | Cyngor Sir Ceredigion |
| Arwyn Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carwyn Jones-Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Julie Lewis | Cyngor Sir Powys |
| Claire Miles | Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru |
| Cathy Martin | Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| Gareth Jones | Cyngor Sir Powys |
| Diane Reynolds | Cyngor Sir Powys |
| Ann Watkin | Tîm Economi Ranbarthol Llywodraeth Cymru |
| Peter James | Tîm Economi Ranbarthol Llywodraeth Cymru |
| Rhydian Morgan | Croeso Cymru |
| Rob Holt | Croeso Cymru |
| Kerry Thatcher | Croeso Cymru |
| Rebecca Rees | Croeso Cymru |
| Lucy Von Weber | Croeso Cymru |
| Meleri Richards | Cyngor Sir Ceredigion |
| Louise Nicholson | Cyngor Sir Powys |
| Aggie Caesar-Homden | Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru |
| Helen Roderick | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| James Lawrence | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Andy Rowland | Biosffer Dyfi |
| Dafydd Wyn Morgan | Menter Mynyddoedd Cambria |
| Wendy Abel | Cyngor Sir Powys |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Gwenfair Owen | Cyngor Sir Ceredigion |
| Arwyn Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| Val Hawkins | Twristiaeth Canolbarth Cymru |

Mae'r casgliadau allweddol sy'n deillio o'r sgyrsiau hyn wedi'u crynhoi yn y Dadansoddiad SWOT isod.

**Ffigur 6: Dadansoddiad SWOT o'r sector twristiaeth yn y Canolbarth, wedi'i lywio gan ymgynghoriadau**

| | CRYFDERAU | GWENDIDAU | CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|---|---|---|
| **Cynnyrch** | Tirweddau ac atyniadau awyr agored (mynyddoedd, arfordir, dŵr)<br>Bywyd gwyllt ac ecoleg<br>Trefi arfordirol a thraethau<br>Digwyddiadau (mawr/bach), yn enwedig ym Mhowys<br>Cynnig bwyd a diod, gyda chysylltiadau cryf â chynhyrchwyr<br>Arwyddocaol o safbwynt hanes, iaith, a diwylliant Cymru<br>Detholiad cryf o atyniadau treftadaeth llai o ran maint<br>Cymunedau dilys<br>Cynnig y celfyddydau'n tyfu mewn rhai mannau (e.e. Aberteifi, Machynlleth) | Cynnig y tu allan i'r tymor<br>Cynnig tywydd gwlyb<br>Atyniadau mawr (e.e. Surf Snowdonia)<br>Dim cynnig diwylliannol sylweddol (e.e. Oriel Celfyddydau Cyfoes Genedlaethol)<br>Cyfleoedd gwario cyfyngedig i ymwelwyr<br>Rhai canfyddiadau bod y Canolbarth yn gyrchfan "rad" o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru<br>Cynnig manwerthu cyfyngedig<br>Safleoedd prysur yn cael eu rheoli'n wael yn aml ar adegau prysur (Pen y Fan, rhaeadr Ffwrnais Dyfi) | Iechyd a llesiant, encilio/dianc, sbâu a llety o safon<br>Awydd i ddianc o ddinasoedd a threfi.<br>Twristiaeth Awyr Dywyll<br>Digwyddiadau y tu allan i'r tymor, cydgysylltiad gwell<br>Bwyd a diod, a chysylltiadau â chynhyrchwyr<br>Gweithgareddau diwylliannol a'r Gymraeg<br>Tirweddau mwy cymedrol o'u cymharu â'r Canolbarth – profiadau awyr agored sy'n addas i deuluoedd ac yn fwy hygyrch<br>Trefi (ger y ffin, ger yr arfordir, ger y mynyddoedd)<br>Bargen Dwf i hyrwyddo atyniadau mawr a chynigion mwy o ran maint<br>Twristiaeth dŵr – llynnoedd, afonydd, y môr | Cystadleuaeth am dwristiaeth awyr agored/antur o lefydd fel Eryri, Sir Benfro ac ati.<br>Nifer yr ail gartrefi'n cynyddu ymhellach a phrisiau tai'n codi<br>Diffyg buddsoddiad yn y rhanbarth oherwydd economeg heriol y farchnad<br>Pris cynhyrchion yn cynyddu, sy'n lleihau cynwysoldeb ac yn eithrio rhai grwpiau o ymwelwyr<br>Mae amgylcheddau sensitif yn atal datblygiad twristiaeth |

| | CRYFDERAU | GWENDIDAU | CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|---|---|---|
| **Seilwaith** | Maint, amrywiaeth, ac ansawdd llety hunanarlwyo yn gwella ledled y rhanbarth (e.e. cytiau bugail, yurts)<br>Nifer y safleoedd a'r busnesau gwersylla a charafanio sydd wedi'u hen sefydlu<br>Llwybrau cerdded pellter hir helaeth ac unigryw (Ffordd Cymru, Llwybr Arfordir Cymru, Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr)<br>Seilwaith digidol a mannau gwybodaeth gwell (e.e. yn Aberteifi) | Trafnidiaeth - mae'r cynnig yn wasgaredig, rhaid defnyddio isffyrdd, ac nid oes llawer o leoedd parcio<br>Cyfleusterau faniau gwersylla/AIRES<br>Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol<br>Gwestai (yn enwedig gwestai mawr)<br>Llety moethus<br>Seilwaith beicio ar y ffordd – llwybrau tameidiog a chyfyngedig<br>Seilwaith digwyddiadau<br>Cyfleusterau twristiaeth grŵp (e.e. coetsis)<br>Nid yw harbwrs yn gwireddu eu potensial<br>Arwyddion ar lwybrau troed a rheoli llwybrau | Hybiau buddsoddi allweddol a lleoliadau porth sy'n gwasanaethu atyniadau<br>Cyfleusterau ar lwybrau cerdded presennol (pellter hir a phellter byr)<br>Ehangu Rhwydweithiau a Llwybrau Beicio Cenedlaethol (a storfeydd beiciau, beiciau electronig, mannau gwefru)<br>Llwyfannau gwylio<br>Cysylltiadau cludiant cryfach i feysydd awyr rhyngwladol (Birmingham, Manceinion, Caerdydd)<br>Gwersylla 'gwyllt' a reolir<br>Defnyddio unedau manwerthu gwag ar y stryd fawr<br>Cludiant amgen ar safleoedd prysur | Mae gormod o gynigion llety hunanarlwyo a llety achlysurol yn y farchnad<br>Prisiau ynni a diffyg pŵer ar gyfer gofynion gwefru estynedig<br>Nid yw'r seilwaith trafnidiaeth yn derbyn y buddsoddiad angenrheidiol, gan arwain at y defnydd parhaus o geir preifat<br>Mae diffyg cyllid yn atal datblygiad y seilwaith gofynnol |
| **Cynulleidfa ac Ymweliadau** | Ymwelwyr o'r DU a Chymru - marchnadoedd traddodiadol ymrwymedig sy'n dod flwyddyn ar ôl blwyddyn<br>Mae ymwelwyr hŷn yn cael eu denu gan y dirwedd, y dreftadaeth, a'r diwylliant<br>Cyfraddau uchel o ymweliadau dydd â rhai rhannau o'r Canolbarth (e.e. Bannau Brycheiniog)<br>Roedd cynulleidfaoedd newydd wedi canfod y rhanbarth yn ystod COVID-19 | Prin yw'r ymweliadau rhyngwladol â'r rhanbarth<br>Llai o ymweliadau domestig â'r Canolbarth o'i gymharu â rhannau eraill o'r wlad<br>Cyfraddau isel o ymwelwyr sy'n aros, a seibiannau byrrach yn bennaf<br>Gwasgariad cyfyngedig o ymweliadau ledled y rhanbarth – mae'r effaith wedi'i chyfyngu i safleoedd ac ardaloedd allweddol<br>Natur dymhorol y cynnig – mae'r tymor yn gymharol fyr, ac mae cynhyrchion y tu allan i'r tymor yn gyfyngedig<br>Nid oes darpariaeth ar gyfer y farchnad deuluol y tu hwnt i wyliau arfordirol traddodiadol – mae'r arlwy i blant mewn lleoedd eraill yn gyfyngedig | Cynyddu gwariant fesul ymweliad<br>Annog ymwelwyr i aros yn hirach, gan aros dros nos yn y rhanbarth yn hytrach nag ymweld am y dydd<br>Gwasgaru trwy'r rhanbarth a'r tymor er mwyn cael effaith ar yr holl drigolion<br>Sicrhau a denu marchnadoedd newydd:<br>➢ Y teithiwr cyfrifol, ymwybodol a thwristiaeth gynaliadwy<br>➢ Sicrhau marchnadoedd teuluol trwy wella'r cynnig sy'n addas i blant<br>➢ Marchnadoedd arbenigol (twristiaeth llesiant, amgylcheddol, ysbrydol)<br>➢ Twristiaeth LHDTC+<br>➢ Twristiaeth sy'n seiliedig ar feicio, dŵr, marchogaeth | Gormod o dwristiaeth mewn safleoedd allweddol, gwasgariad cyfyngedig i weddill y rhanbarth<br>Methu treiddio i farchnadoedd targed allweddol<br>Dieithrio marchnadoedd presennol<br>Y farchnad gwyliau gartref yn lleihau wrth i dwristiaeth dramor ddychwelyd ar ôl COVID-19<br>Llai o wariant dewisol oherwydd yr argyfwng costau byw<br>Diffyg ymweliadau rhyngwladol o hyd |

| | CRYFDERAU | GWENDIDAU | CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|---|---|---|
| **Marchnata a Hyrwyddo** | Nodweddion clir a phwynt gwerthu unigryw'r Canolbarth a'i gynnig<br>Negeseuon cenedlaethol cadarn gan Croeso Cymru<br>Sefydliadau a phartneriaethau Rheoli Cyrchfannau sy'n gweithio'n galed<br>Sefydliadau aelodaeth sy'n helpu i hyrwyddo'r rhanbarth | Canfyddiad ei bod yn anodd cyrraedd y Canolbarth (o'i gymharu ag Ucheldir yr Alban, Cernyw ac ati)<br>Anhawster creu màs critigol o gynhyrchion a seilwaith ym marn ymwelwyr posib.<br>Nid yw'r arwyddion i atyniadau a chyfleusterau'n ddigonol bob amser | Cyfleoedd i glystyru a chysylltu'r cynnig yn ddaearyddol, yn thematig, neu yn ôl grŵp cynulleidfa, er mwyn annog arosiadau hirach a chreu màs critigol<br>Profiadau lleol, dilys sy'n cael eu hysgogi gan gymunedau bywiog<br>Heddwch a llonyddwch, mannau agored<br>Cynigion eco-dwristiaeth, cynaliadwyedd<br>Amlygu ansawdd (llawer gwell) y cynnig mewn sawl ardal<br>Rhanbarth y storïwyr<br>Brand Gwnaed yn y Canolbarth i annog y defnydd o gynnyrch lleol | Negeseuon anghyson rhwng sefydliadau gwahanol<br>Diffyg effaith ymdrechion marchnata'r sector cyhoeddus oherwydd dylanwad gwefannau twristiaeth allweddol (e.e. TripAdvisor, Airbnb, Lonely Planet) |
| **Adnoddau** | Trigolion egnïol ac entrepreneuraidd<br>Amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau twristiaeth sy'n gweithio tuag at ddatblygu'r sector yn y Canolbarth<br>Canolfannau datblygu sgiliau ac addysg yn y rhanbarth | Pobl ifanc yn symud o'r rhanbarth a ddim yn mynd i swyddi yn y Canolbarth<br>Mae'n anodd llenwi swyddi gwag yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch – problemau adnoddau'n gorfodi busnesau i wneud toriadau a hyd yn oed gau<br>Mae llawer o swyddi yn y sector yn dymhorol ac yn swyddi cyflog/sgiliau cymharol isel – mae'r canfyddiad ohonynt yn wael<br>Nid yw rhai busnesau'n gallu neu'n fodlon cynnig mwy i ddarpar weithwyr cyflogedig, gan gyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr<br>Dibyniaeth ar un person mewn lle i sbarduno cynnydd<br>Mae timau'r sector cyhoeddus yn fach ac nid oes ganddynt ddigon o adnoddau | Cynllun graddedigion Twristiaeth Canolbarth Cymru<br>Potensial i gyflwyno rolau Hwylusydd Twristiaeth Cymunedol neu rôl debyg, er mwyn grymuso busnesau a sefydliadau<br>Partneriaethau dyfnach ar draws y sectorau<br>Hyfforddiant ar gyfer busnesau mewn marchnata, cyllid, ac ati<br>Hyfforddiant ar draws sectorau ar gyfer gweithwyr cyflogedig busnesau ym meysydd twristiaeth a lletygarwch, er mwyn cynyddu cyfraddau cadw<br>Datblygu a thyfu Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru sydd newydd ei sefydlu<br>Rolau staffio ar draws sefydliadau | Lefelau cadw staff gwael<br>Anhawster llenwi swyddi gwag ym maes twristiaeth<br>Lefelau uwchsgilio unigolion cyfyngedig<br>Ni all busnesau addasu i'r ffaith bod disgwyliadau gweithwyr cyflogedig wedi newid<br>Nid oes gan sefydliadau cymunedol, cynghorau tref, na busnesau ddigon o adnoddau i nodi a mynd i'r afael â heriau neu dyfu sgiliau<br>Nid yw buddsoddiad yn cael yr effaith a ddymunir gan nad yw adnoddau ar gael i weithredu a chynnal cyfleusterau |

| | CRYFDERAU | GWENDIDAU | CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad a Strwythur** | Sefydliadau a llysgenhadon cymunedol sy'n teimlo eu bod wedi'u cynnwys<br>Busnesau a chynnig unigryw.<br>Cynnig annibynnol heb lawer o gadwyni cenedlaethol<br>Mae rhai Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau a mentrau cysylltiedig cadarn wedi gwneud cynnydd ym meysydd sgiliau, marchnata a brandio, a datblygu eu cynnig oherwydd adnodd pwrpasol | Mae Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau a sefydliadau cysylltiedig yn dibynnu ar wirfoddolwyr ac ewyllys da/egni unigolion. Mae bygythiadau cyllido'n golygu bod y dyfodol yn ansicr (e.e. Menter Mynyddoedd Cambria)<br>Darnio a diffyg cydweithredu, gan arwain at gynigion sy'n gorgyffwrdd ac yn cystadlu â'i gilydd<br>Prosesau rhannu gwybodaeth gwael rhwng gweithredwyr twristiaeth<br>Cymhlethdod a nifer y sefydliadau twristiaeth<br>Dibyniaeth ar wirfoddolwyr medrus, brwdfrydig mewn cymunedau – nad ydynt ar gael ym mhob man | Clystyru a chysylltu cynigion mewn ardal, gan wella prosesau rhannu gwybodaeth a chydweithredu<br>Rhyngwyneb cryfach rhwng y sector cyhoeddus/cyllidwyr a busnesau/grwpiau cymunedol lleol/cynghorau.<br>Mesurau llwyddiant ledled y rhanbarth<br>Symleiddio seilwaith y sector cyhoeddus ym maes twristiaeth<br>Cysylltu twristiaeth â chyfrifoldebau statudol (yr economi, iechyd, addysg a sgiliau) yn agosach<br>Cyllid catalydd i helpu sefydliadau i fod yn gynaliadwy (e.e. gwyliau bwyd Ceredigion) | Nid yw'r achos o blaid cefnogi prosiectau twristiaeth yn cael ei gyflwyno yn llwyddiannus<br>Mae diffyg eglurder o hyd ynglŷn â phwy y dylai busnesau a chymunedau gysylltu â nhw os oes ganddynt broblemau<br>Mae toriadau cyllid yn dileu cymorth ar gyfer sefydliadau allweddol yn y sector<br>Gorddibyniaeth ar gyrff cyhoeddus am gymorth ac arbenigedd |

## 3.2 Arolwg

Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus a gafodd ei ddosbarthu'n eang trwy fforymau a rhwydweithiau twristiaeth i gannoedd o unigolion a sefydliadau ledled y rhanbarth. Derbyniwyd bron i 100 o ymatebion i'r arolwg, ac roedd 45% gan fusnesau twristiaeth lleol, gyda 65% o'r rhain yn fusnesau llety. Roedd y gweddill yn elusennau cenedlaethol a rhanbarthol a chymdeithasau twristiaeth, clybiau a grwpiau diddordeb arbennig, a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus. Cafwyd nifer cymharol gyfartal o ymatebion o Geredigion a Phowys.

Nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys:


- Adborth o'r 'weledigaeth, gwerthoedd, amcanion, a chynhyrchion' (adran 4)
- Nodi a chategoreiddio tref ar sail y grwpiau hyb
- Sgorio blaenoriaethau buddsoddi
- Data ansoddol ar heriau, cyfleoedd, ac ardaloedd buddsoddi yn y Canolbarth.

Yn hollbwysig, mae yna gefnogaeth gymharol eang i'r 'weledigaeth, gwerthoedd, amcanion, a chynhyrchion' gan y diwydiant. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd yn gadarnhaol ac roedd cyfran fawr yn niwtral ond yn adeiladol. Roedd llawer o'r ymatebion adborth adeiladol yn fanwl ac yn drylwyr, gan amlygu lefel uchel o ymgysylltu gan y diwydiant twristiaeth â'r gwaith ymchwil hwn. Mae dyfnder y sylwadau wedi arwain at weledigaeth dwristiaeth sy'n hynod berthnasol ac yn benodol i faterion lleol.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi sgôr i bob rhan o'r diwydiant twristiaeth yn seiliedig ar ei gofyniad am fuddsoddiad, fel y dangosir isod. Nodwyd mai cyfleusterau sylfaenol, trafnidiaeth gyhoeddus, a marchnata yw'r meysydd pwysicaf sydd angen buddsoddiad, tra bod cynigion masnachol fel manwerthu, bwyd a diod, a llety wedi cael sgôr is.

Gallai gwaith pellach geisio deall natur y blaenoriaethau buddsoddi o safbwynt twristiaid.

### Ffigur 7: pwysigrwydd blaenoriaethau buddsoddi



Ochr yn ochr â hyn, casglwyd llawer iawn o ddata ansoddol ar heriau a chyfleoedd buddsoddi ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru. Cafodd canfyddiadau'r data hwn gryn ddylanwad ar y cynllun gweithredu ar gyfer buddsoddi. Roedd ymatebwyr wedi mynegi barn ar y prif heriau i fuddsoddi yn y sector. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos yr heriau mwyaf cyffredin a nodwyd.

**Ffigur 8: Heriau i fuddsoddi yn y Canolbarth**

"Diffyg cydgysylltiad trefi/cymunedau" – Darparwr gweithgaredd

"Prinder staff i weithio yn y diwydiant twristiaeth yn rhannol oherwydd nad yw'n denu pobl ifanc" – Busnes llety

"Byddwn i'n dweud bod modd buddsoddi mewn ffordd fwy rhagweithiol, o bosibl trwy estyn allan at safleoedd twristiaeth sydd wedi'u nodi'n hybiau, a hysbysu busnesau bod cyllid ar gael iddynt a'u hannog/cynorthwyo i wneud cais amdano." – Busnes llety

"Dim digon o gymorth i BBaChau" – Elusen leol

"Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd buddsoddi yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr a phrosiectau sy'n werth miliynau o bunnoedd, ac ers i MSBS Croeso Cymru ddod i ben yn 2020, does dim cymorth ar gael i gefnogi BBaChau yn y Canolbarth." – Awdurdod Lleol

"Ddim yn gwybod sut i gael grantiau" – Elusen leol

Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr am adborth ar fuddsoddiadau presennol a pharhaus, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi yn gyson â chyflwr presennol buddsoddiad yn y Canolbarth. Roedd llawer llai o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. Gallai'r diffyg ymatebion ddeillio o ddiffyg cyllid, diffyg cysylltiad rhwng cyllidwyr a busnesau, a diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cyfleoedd cyllido sydd ar gael, ac fe godwyd pob un o'r rhain fel prif rwystrau i fuddsoddiad.

# 4 Gweledigaeth ar gyfer Twristiaeth yn y Canolbarth

Gan adeiladu ar ein gwaith ymchwil yn ymwneud â chyd-destun strategol twristiaeth Canolbarth Cymru, dynameg bresennol yr economi ymwelwyr a thueddiadau yn y diwydiant, a'n gwaith ymgysylltu amrywiol, rydym yn cynnig y weledigaeth sylfaenol hon fel sylfaen i ddatblygu twristiaeth ar draws y rhanbarth.

Mae'r weledigaeth wedi ei phrofi gyda sefydliadau twristiaeth lleol a rhanddeiliaid lleol trwy'r arolwg. Mae adborth i'r arolwg yn amlygu cefnogaeth glir ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i'r weledigaeth, y gwerthoedd, a'r amcanion. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth yn gadarnhaol, ac mae adborth adeiladol wedi'i gynnwys yn y weledigaeth a'r adroddiad ehangach.

## 4.1 Gweledigaeth

Nod y weledigaeth a'r gwerthoedd canlynol yw uno pob unigolyn a sefydliad sy'n gweithio ym maes twristiaeth yn y rhanbarth, a bydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a buddsoddi mewn seilwaith a chynigion ychwanegol yn y dyfodol:

**Gweledigaeth**

Manteisio'n llawn ar effeithiau cadarnhaol twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy er budd cymunedau Canolbarth Cymru. Byddwn yn gwneud hyn trwy hybu buddsoddiad mewn profiadau a chyfleoedd ystyrlon sydd wedi'u gwreiddio mewn llefydd a diwylliant arbennig y rhanbarth.

**Gwerthoedd**

- **Rydym yn Ddilys** – mae ein cymunedau'n llefydd byw a bywiog lle mae traddodiad ac arloesedd yn bodoli ar y cyd
- **Rydym yn Unigryw** – mae ein cynnig yn annibynnol, yn gynaliadwy, ac yn wahanol i unrhyw le arall yn y DU
- **Rydym yn Chwilfrydig** – rydym yn annog ymwelwyr i oedi ac archwilio y tu hwnt i'r llefydd arferol
- **Rydym yn Gyfrifol** – mae diogelu a hyrwyddo ein tirweddau, ein bywyd gwyllt a'n treftadaeth yn bwysig i ni
- **Rydym yn Deg** – mae ein pobl a'n busnesau'n haeddu cyfran gyfartal o fanteision twristiaeth
- **Rydym yn Groesawgar** – dyma Galon Cymru, lle mae ymwelwyr yn cael eu trin fel ffrindiau
- **Mae gennym ddarpariaeth o Ansawdd** – mae ein cyrchfannau, ein cynnyrch, a'n seilwaith o'r radd flaenaf, wedi'u rheoli'n effeithiol, a'u hyrwyddo'n eang

## 4.2 Amcanion

Gan adeiladu ar y weledigaeth hon, mae sawl amcan allweddol yn cyfleu'r dyheadau a'r uchelgais ar gyfer datblygiad a thwf twristiaeth ledled y Canolbarth:

- **Twf cynaliadwy sector twristiaeth adfywiol** sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwariant, cyfnodau aros, ac ymgysylltu, yn hytrach na niferoedd ymwelwyr
- Hyrwyddo **gwasgariad ymweliadau** ledled y rhanbarth, gan osgoi safleoedd hynod boblogaidd yn y tymor prysur, a chryfhau'r cynigion y tu allan i'r tymor prysur a'r cyfnod rhyngddynt er mwyn hyrwyddo **economi ymwelwyr gydol y flwyddyn**
- Creu, hwyluso, a hyrwyddo **clystyrau o gynigion i ymwelwyr**, gan ddarparu digon o fàs critigol ym mhob ardal i sicrhau bod ymwelwyr yn gallu aros am sawl diwrnod
- Sicrhau bod darnau allweddol o **seilwaith ymwelwyr** ar waith mewn hybiau twristiaeth a rhwng hybiau twristiaeth ledled y rhanbarth, gan gynnwys detholiad addas o gynigion llety
- Cynorthwyo'r **sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector** i weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol gyda'i gilydd, trwy bartneriaethau ffurfiol, a llwybrau cliriach i wybodaeth a chymorth i fusnesau
- Blaenoriaethu **cyflogaeth a hyfforddiant ystyrlon a diogel** ym maes twristiaeth i sicrhau bod gan fusnesau fynediad at dalent, nad yw pobl ifanc yn gadael y Canolbarth, a bod y sector yn cael ei ystyried yn ddewis gyrfa gwerth chweil
- Diogelu'r **amgylchedd** ar gyfer cenedlaethau i ddod, trwy hyrwyddo bioamrywiaeth, a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy gyflwyno seilwaith gwyrdd, rhwydweithiau teithio llesol, a thrafnidiaeth gyhoeddus well

## 4.3 Cynnyrch

Mae sawl ardal cynhyrchu cynradd wedi'u nodi yn seiliedig ar ein hymgynghoriadau a'n gwaith ymchwil, gan fanteisio ar gryfderau ac asedau presennol Canolbarth Cymru:

- Gweithgareddau **awyr agored a thirwedd** sy'n manteisio ar fynyddoedd, dŵr, traethau a byd natur y Canolbarth
- Cynigion **dan do gydol y flwyddyn** i hybu ymweliadau yn ystod y tymor llai prysur (e.e. twristiaeth awyr dywyll) a darparu dewisiadau amgen ar gyfer ymwelwyr yn ystod tywydd gwael (e.e. treftadaeth, amgueddfeydd, chwaraeon dan do)
- Cynnig digwyddiadau estynedig, gan ddatblygu **calendr digwyddiadau cydgysylltiedig ledled y rhanbarth** sy'n osgoi gwrthdaro ac yn hwyluso ymweliadau aml-ddigwyddiad ac archwilio ar ôl neu cyn y digwyddiad.
- Pwysleisio cynnyrch rhagorol y rhanbarth trwy'r syniad **O'r Pridd i'r Plât,** gan gysylltu sector amaethyddol y Canolbarth â'i gynnig coginiol sy'n cynyddu.
- Sbarduno rhagor o dwf yn y **sector Celfyddydau a Diwylliant**, mewn lleoliadau strategol ledled y rhanbarth.
- Gwella'r **trefi a'r pentrefi** allweddol y rhanbarth, gan roi blaenoriaeth i adnewyddu'r stryd fawr, tir y cyhoedd a chreu parthau cerddwyr, a chyflwyno defnydd cymysg mewn unedau manwerthu gwag er mwyn hyrwyddo ffyniant.
- Twristiaeth sy'n seiliedig ar ymlacio trwy ddianc, neu ***Heddwch***

Ehangwyd y categorïau cynnyrch eang hyn yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi isod.

## 4.4 Clystyru

Ochr yn ochr â'r weledigaeth hon, rydym wedi dechrau ystyried sut a ble y gellir defnyddio buddsoddiad i gyflawni'r nodau hyn. Mae gwasgaru'n un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r strategaeth hon, ond mae'n bosibl y bydd marchnata atyniadau ledled y rhanbarth heb fuddsoddi mewn seilwaith yn achosi niwed i'r cymunedau a'r amgylchedd yn y llefydd hynny.

Felly, mae'n bwysig bod y strategaeth yn atgyfnerthu hybiau strategol er mwyn annog clystyrau i dyfu o'u cwmpas, gan ymgorffori'r atyniadau eu hunain yn ogystal â phopeth sydd ei angen i hwyluso cynnydd yn nifer yr ymwelwyr neu arosiadau hirach. Gall "màs critigol" o'r fath o ran darpariaeth helpu i hyrwyddo mwy o wariant ac ymestyn cyfnodau aros mewn mannau y mae ymwelwyr yn mynd heibio iddynt ar hyn o bryd ar eu ffordd i rywle arall.

Rydym wedi awgrymu tri math o hyb, gyda graddfeydd gwahanol o ddarpariaeth a swyddogaeth gan ddibynnu ar faint a natur yr aneddiadau eu hunain:

- **Prif Hybiau** – lleoliadau allweddol ar gyfer manwerthu, llety, atyniadau, gwasanaethau cymorth a chysylltiadau; trefol o ran natur ac yn gallu darparu ar gyfer nifer fwy o ymwelwyr.
- **Hybiau Cyrchfan** – aneddiadau sy'n ddeniadol i ymwelwyr mewn ffordd gynhenid ac sydd o faint sy'n golygu eu bod yn gallu cynnal a darparu ar gyfer mwy o ymwelwyr a chyfleusterau ychwanegol. Mae'n debygol y bydd yr hybiau hyn yn agos at glystyrau pwysig o atyniadau ymwelwyr.
- **Hybiau Eilaidd** – aneddiadau wedi'u lleoli'n dda sydd â chyfleusterau y gellir eu hymestyn ymhellach i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i ymwelwyr.


Dylai'r hybiau hyn gynnig gwasanaethau llety, manwerthu, a bwyd a diod os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes, dylent gynnwys atyniadau neu fod â chysylltiad uniongyrchol ag atyniadau, a dylent fod ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. **Nid yw'r dull gweithredu hwn yn atal buddsoddiad y tu allan i'r hybiau hyn**, ond rydym yn rhagweld y byddent yn cynnwys llawer o'r gofynion seilwaith allweddol i gefnogi'r weledigaeth mewn ardal benodol. **Ni fydd penderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn gysylltiedig â chategori hybiau**. Byddai prosiectau mewn ardaloedd gwledig a thu allan i'r hybiau hyn yn rhan o'r clwstwr sydd agosaf atynt.

Er enghraifft, bydd angen cyfleusterau mewn atyniadau allweddol ledled y rhanbarth, gan gynnwys parcio, mannau gwefru cerbydau trydan, toiledau, llefydd stopio ac ati. Ond ni fyddai angen i lawer o leoliadau o'r fath gynnig gwasanaethau manwerthu neu fwyd a diod ar y safle – mae'r rhain yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli yn yr Hybiau.

Rydym wedi awgrymu'r rhestr gychwynnol ganlynol o leoliadau hyb, yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hymgynghoriadau ac ar yr arolwg (gweler adroddiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi am fanylion yr arolwg). Nodwyd y rhain er mwyn sicrhau lledaeniad ledled y Canolbarth, darparu mynediad at atyniadau allweddol y rhanbarth, ac adeiladu ar y seilwaith a'r gwasanaethau presennol mewn trefi a phentrefi. Fel arfer, maent wedi'u lleoli ar y prif lwybrau trafnidiaeth i mewn ac allan o'r rhanbarth, gan gynnwys yr A40, yr A44, yr A487, yr A470, yr A489, a'r A458, a llinellau rheilffordd Cambria a Chalon Cymru.

Mae'r hybiau wedi eu dewis trwy ymgynghoriad a thrwy'r arolwg. Roedd canlyniadau categoreiddio'r trefi'n hybiau yn amrywiol. Fel y dangosir yn y graff isod, cafodd y rhan fwyaf o drefi eu dewis ar gyfer pob un o'r tri chategori o hybiau. Un dylanwad posibl ar hyn yw tuedd pleidleiswyr i roi sgôr mewn ffordd benodol yn seiliedig ar eu lleoliad, lleoliad eu busnes neu ardal weithio, neu wybodaeth am drefi. Fel trigolion a pherchnogion busnes, mae'n debygol y bydd gan ymatebwyr ddiddordeb personol yn yr ardaloedd lle mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu a sut mae twristiaeth yn cael ei reoli'n ddaearyddol ar draws y rhanbarth, sy'n egluro o bosib pam mae hyd yn oed rhai trefi bach iawn e.e. Tregaron, wedi cael eu dewis fel prif hwb. Penderfynwyd ar ddosbarthiad yr hybiau ar sail y sgôr mwyaf cyffredin yn yr arolwg.

**Ffigur 9: Graddio hybiau**





**Prif Hybiau –** Aberystwyth, Aberhonddu, Y Drenewydd, a'r Trallwng

**Canolfannau Cyrchfan –** Aberteifi, Machynlleth, Y Gelli Gandryll, Cei Newydd, Rhaeadr Gwy, Aberaeron, a Chrucywel

**Hybiau Eilaidd** - Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Llanbedr Pont Steffan, Llanidloes, Pontarfynach, Tregaron, a Threfyclo

Rydym yn dangos lledaeniad daearyddol yr hybiau hyn yn y ffigur isod.

**Ffigur 10: Prif Hybiau (glas), Hybiau Cyrchfan (coch) a Hybiau Eilaidd (porffor) ledled Canolbarth Cymru**




## 4.5 Damcaniaeth Newid

Mae damcaniaeth newid yn fodel rhesymeg manwl sy'n cysylltu materion allweddol â chamau gweithredu sydd â’r nod o fynd i'r afael â nhw, ac effaith ddilynol y camau hyn.

Ceir tystiolaeth o'r heriau gan ymchwil y farchnad sydd wedi'i hategu gan ddata (adran2) a chanlyniadau’n gwaith ymgysylltu (adran 3), ac maent wedi'u grwpio ar sail yr amcanion y maent yn mynd i'r afael â nhw orau (adran 4.2).

Fel y dangosir yn yr asesiad ansoddol (Adran 5.2), mae'r rhan fwyaf o ymyriadau’n mynd i'r afael â sawl amcan a mater. At ddibenion y model hwn, dim ond yr ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r her a'r amcan orau sydd wedi cael eu cynnwys.

Mae Damcaniaeth Newid yn golygu bod modd dilyn a deall y cymhelliant dros un mater a'r ymateb iddo (e.e. gwasgariad ymwelwyr).

**Ffigur 11: Damcaniaeth newid**

| Amcanion | Heriau | Ymyriadau perthnasol | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Twf cynaliadwy twristiaeth adfywiol** | ➢ Gwariant isel fesul ymwelydd dros nos o'i gymharu â gweddill Cymru<br>➢ Poblogrwydd gweithgareddau gwariant isel e.e. cerdded<br>➢ Proffil demograffig hŷn ymwelwyr (55+) o'i gymharu â gweddill Cymru<br>➢ Llai o deuluoedd yn ymweld â'r Canolbarth o'i gymharu â Chymru<br>➢ Canfyddiadau o'r Canolbarth fel cyrchfan "rad"<br>➢ Ychydig iawn o lety gwerth uchel (e.e. gwestai), llawer o lety gwerth isel (e.e. gwersylla)<br>➢ Denu ymwelwyr o fand economaidd-gymdeithasol is (mae ymwelwyr yn llai tebygol o fod yn y band uchaf, AB) | ➢ Bywiogrwydd canol trefi<br>➢ Cymorth ar gyfer amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol lleol<br>➢ Cymorth i ddatblygu cynnig rhwydwaith y gwneuthurwyr celf a chrefft<br>➢ Cynnig enciliadau llesiant a gwestai sba moethus<br>➢ Pecynnau twristiaeth gorfforaethol<br>➢ Pererindod twristiaeth ysbrydol | ➢ Cynnydd mewn gwariant fesul ymweliad<br>➢ Mwy o wariant mewn llety o ansawdd uchel<br>➢ Hwb i fusnesau lleol<br>➢ Canol trefi mwy deniadol/bywiog<br>➢ Ymwelwyr sy'n gwario llawer o arian yn cael eu denu i'r rhanbarth<br>➢ Ymgysylltiad dyfnach â hanes a threftadaeth y rhanbarth<br>➢ Cynnig ehangach i ddenu ymwelwyr newydd a denu marchnadoedd arbenigol |
| **Gwasgaru ymweliadau** | ➢ Gwasgariad cyfyngedig o ymwelwyr ledled y rhanbarth<br>➢ Crynodiad o ymwelwyr ag Aberhonddu ac Aberystwyth<br>➢ Gormod o dwristiaeth mewn safleoedd poblogaidd e.e. Pen-y-Fan, gan arwain at ddirywiad amgylcheddol<br>➢ Twf cyflym mewn twristiaeth ddomestig dros y 5 mlynedd diwethaf, sy'n gyflymach o lawer na gweddill Cymru.<br>➢ Yn aml, mae ymwelwyr yn gyrru trwy Ganolbarth Cymru ar eu ffordd i'r Gogledd / De heb archwilio'r ardal fawr ddim<br>➢ Natur dymhorol iawn ymwelwyr a refeniw twristiaeth<br>➢ Nid yw'r arwyddion i atyniadau a chyfleusterau'n ddigonol bob amser | ➢ Datblygu adnodd rheoli twristiaeth sy'n cael ei arwain gan ddata<br>➢ Gwella'r rhwydwaith llwybrau cerdded a beicio<br>➢ Llwyfannau gwylio<br>➢ Cyfleusterau dehongli a chysgodi mewn atyniadau ymwelwyr awyr agored gwledig<br>➢ Lleoedd ar gyfer cartrefi modur a faniau gwersylla mewn trefi bach neu'n agos atynt | ➢ Llai o dwristiaeth ormodol<br>➢ Dosbarthiad cyfoeth ledled y Canolbarth<br>➢ Llai o ddirywiad amgylcheddol mewn safleoedd prysur<br>➢ Refeniw twristiaeth mwy cyson drwy gydol y flwyddyn |

| Amcanion | Heriau | Ymyriadau perthnasol | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Clystyrau o gynigion** | ➢ Diffyg cynnig diwylliannol sylweddol<br>➢ Nifer fach o ymwelwyr o'i gymharu â maint y rhanbarth.<br>➢ Hyd y cyfnod aros yn gostwng yn gynt na chyfartaledd Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf<br>➢ Diffyg cynnig tywydd gwlyb<br>➢ Mae maint a chapasiti gwestai'n cyfyngu ar y cynnig digwyddiadau | ➢ Datblygu cynnig diwylliannol blaenllaw<br>➢ Datblygu ac amrywio'r calendr digwyddiadau<br>➢ Cynnig gwestai mawr<br>➢ Datblygu gweithgareddau twristiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr<br>➢ Llwybr cynhyrchwyr bwyd a diod | ➢ Capasiti i gynnal digwyddiadau mawr a mwy o ddigwyddiadau<br>➢ Datblygu'r cynnig mewn 'hybiau'<br>➢ Arosiadau hirach a mwy o wariant<br>➢ Gwella canfyddiad o'r rhanbarth |
| **Seilwaith Ymwelwyr** | ➢ Canfyddiad ei bod yn anodd cyrraedd Canolbarth Cymru<br>➢ Ansawdd gwael y ffyrdd yn cyfyngu ar ymweliadau â rhai atyniadau<br>➢ Dim digon o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus<br>➢ Rheoli gwael (e.e. parcio ceir) mewn safleoedd poblogaidd | ➢ Mynediad i bobl anabl<br>➢ Darparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus<br>➢ Gwella seilwaith y ffyrdd, mannau gwefru cerbydau trydan, a meysydd parcio<br>➢ Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus | ➢ Gwella mynediad at atyniadau ymwelwyr<br>➢ Mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan ymwelwyr |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | ➢ Sicrhau cysondeb o ran ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth hyd at lefel leol<br>➢ Diffyg gwybodaeth gan fusnesau am gyfleoedd ariannu a / neu adnoddau i wneud cais<br>➢ Diffyg gwybodaeth yn y gymuned fusnes am sut ac o ble i gael cymorth<br>➢ Mae hunaniaeth Canolbarth Cymru yn aneglur | ➢ Egluro'r strwythur trefniadol ar gyfer rheoli twristiaeth<br>➢ Hyfforddiant a chymorth i fusnesau<br>➢ Brand "Gwnaed yn y Canolbarth"<br>➢ Marchnata a hyrwyddo | ➢ Proses symlach o gaffael cymorth a chefnogaeth ar gyfer busnesau ac unigolion yn y sector<br>➢ Brandio unedig a chydlynol<br>➢ Sector busnes mwy effeithlon sy'n cael ei gefnogi'n well |
| **Cyflogaeth a sgiliau** | ➢ Prinder staff difrifol<br>➢ Pobl ifanc yn gadael y rhanbarth<br>➢ Mae'r sector twristiaeth yn cynnwys BBaChau a busnesau annibynnol yn bennaf. Mae'n ymddangos bod diffyg sgiliau rheoli mewn rhai BBaChau.<br>➢ Mae twf cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ym maes llety yn bennaf. Diffyg twf mewn meysydd eraill. | ➢ Cyflogaeth a hyfforddiant mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth<br>➢ Hyfforddiant a chymorth i fusnesau | ➢ Cronfa fwy o staff medrus<br>➢ Recriwtio mwy o staff i'r diwydiant a goresgyn heriau prinder staff<br>➢ Gwella cyfraddau cadw staff<br>➢ Canfyddiad gwell o'r sector fel dewis gyrfa gwerth chweil |

| Amcanion | Heriau | Ymyriadau perthnasol | Effaith |
|---|---|---|---|
| | ➢ Mae'r sector twristiaeth yn gyfrifol am gyfran fawr o gyflogaeth, ond mae'n cael ei ystyried yn sector cyflogau isel a sgiliau isel. | | |
| **Yr Amgylchedd** | ➢ Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn cyrraedd mewn ceir<br>➢ Dirywiad amgylcheddol ar safleoedd poblogaidd e.e. traethau, Bannau Brycheiniog ac ati | ➢ Twristiaeth amgylcheddol<br>➢ Darparu mannau gwefru cerbydau trydan<br>➢ Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus<br>➢ Cynnal a chadw digonol ar gyfer traethau | ➢ Lleihau effaith amgylcheddol<br>➢ Diogelu bioamrywiaeth<br>➢ Denu ymwelwyr sy'n ymwybodol o'r amgylchedd i'r rhanbarth<br>➢ Ymwelwyr yn dysgu am gynaliadwyedd |

# 5 Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi

Mae'r Cynllun Gweithredu’n seiliedig ar y nod o ddatblygu economi ymwelwyr Canolbarth Cymru trwy wella ac ehangu asedau presennol a gwella strwythurau cymorth y sector.

Mae'r argymhellion buddsoddi a'r Cynllun Gweithredu canlynol wedi'u datblygu o ganlyniad i ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a'r dadansoddiad SWOT, a thrwy wneud ymchwil i'r farchnad. Maent wedi'u datblygu i gyflawni'r Weledigaeth, y Gwerth, a'r Amcanion (gweler adrannau 4.1 a 4).

## 5.1 Dull gweithredu

Mae rhestr fer o ymyriadau wedi'u categoreiddio'n ddeg grŵp: Llety; y Celfyddydau, Diwylliant ac Ysbrydegaeth; Yr awyr agored; Digwyddiadau a bywiogrwydd; Twristiaeth gorfforaethol; Trafnidiaeth; Cyfleusterau Sylfaenol; Marchnata a Hyrwyddo; Adnoddau; Trefniadaeth a Strwythur. Mae pob ymyriad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- **Trosolwg o'r Ymyriad**: Crynodeb a manylion yr ymyriad arfaethedig, a'r math o ganlyniad y gellir ei ddisgwyl o'r ymyriad.
- **Cam Gweithredu:** Rydym wedi nodi cyfres o gamau i'w cymryd er mwyn rhoi'r ymyriadau ar waith. Dylent awgrymu'r gyfres o gamau sydd eu hangen.
- **Cysondeb ag amcanion**: Mae'r ymyriadau wedi'u sgorio yn erbyn pob amcan. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn 5.2.
- **Amserlen**: Pennwyd amserlen bosibl ar gyfer rhoi'r ymyriadau ar waith.
    - Tymor byr – dylid eu cyflawni yn ystod y cyfnod 2023-24
    - Tymor canolig – dylid eu cyflawni yn unol ag amserlen 2024-28
    - Hirdymor – yn debygol o gael eu cyflawni ar ôl 2028, ond mae'n bosibl y bydd angen dechrau'r gwaith cychwynnol yn y tymor byr
- **Blaenoriaeth:** Mae blaenoriaeth pob ymyriad wedi’i chategoreiddio fel naill ai: Rhaid gwneud; Dylid gwneud; neu Gellid gwneud. Mae tri phrif ffactor wedi llywio'r flaenoriaeth: sgôr pwysigrwydd ardaloedd cynnyrch o'r arolwg, ymgynghoriadau cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol, a'r cysondeb ag amcanion.
- **Cyllid a Chyflawni:** Rydym wedi gwneud awgrymiadau ynglŷn â’r ffynonellau ariannu posibl y gellid eu defnyddio, y dulliau cyflawni posibl, a'r sefydliadau neu'r mathau o sefydliadau a phartneriaethau sydd angen cymryd rhan er mwyn rhoi'r ymyriadau ar waith. Bydd cyllid yn ffactor allweddol yn y broses gyflawni, ac er bod rhai ffynonellau cyllid wedi'u nodi a'u hawgrymu, bydd angen mynd i'r afael â bylchau cyllido. **Mae'r ffynonellau cyllido a nodwyd yn cynnwys:**
    - Y Gronfa Ffyniant Gyffredin
    - Bargen Twf Canolbarth Cymru
    - Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth Croeso Cymru a Banc Datblygu Cymru
    - Y Pethau Pwysig Croeso Cymru

  - Cyngor Celfyddydau Cymru
  - Cronfa Dreftadaeth y Loteri
  - Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
  - Cronfa Treftadaeth Bensaernïol
  - Cronfa Trawsnewid Trefi
- **Risg**: Rydym wedi awgrymu beth yw'r risgiau allweddol e.e. a yw'r ymyriad yn gost uchel, a beth yw'r risgiau cynllunio.

## 5.2 Asesiad Ansoddol


Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi'n nodi categorïau o fuddsoddiad i hyrwyddo'r sector twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru, yn ôl y weledigaeth a'r amcanion uchod. Er mwyn nodi cysondeb â'r amcanion, mae pob ymyriad wedi cael sgôr rhwng 0-5 ar gyfer pob amcan. Mae cyfanswm y sgôr yn nodi i ba raddau y mae'r ymyriad yn gyson â'r amcanion.

Fel arfer, mae gan yr ymyriadau ehangach (e.e. bywiogrwydd canol tref) sgoriau cyffredinol uwch, gan eu bod yn cyfrannu at sawl amcan strategol ar yr un pryd, tra bod ymyriadau mwy penodol (e.e. mynediad ar gyfer pobl anabl) yn cyflawni yn erbyn nifer llai o flaenoriaethau yn aml, er eu bod yn bwysig o hyd.

O ganlyniad, er bod y sgôr gyffredinol hon yn ddefnyddiol i helpu i nodi camau penodol sy'n hanfodol i wireddu'r Weledigaeth, nid dyma'r unig ffactor, ac mae angen cofio ei bod yn rhan o'r dyfarniad 'blaenoriaeth' cyffredinol sydd wedi'i wneud ym mhob achos.

Mae'r graff bar isod yn dangos cysondeb pob ymyriad â'r amcanion, wedi'u trefnu ar sail y sgôr isaf i'r sgôr uchaf.

## Ffigur 12: Cysondeb ag amcanion



## 5.3 Cynllun Gweithredu ar gyfer Buddsoddi

Bwriad y cynllun gweithredu isod yw darparu cyfarwyddyd a chanllawiau ar gyfer cyfres o ymyriadau posibl sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r weledigaeth a amlinellir uchod y mae'r holl randdeiliaid wedi cytuno iddi. Mae'n sefydlu camau gweithredu ym mhob achos a allai helpu i sefydlu'r camau nesaf i ddatblygu'r ymyriad. Mae union natur cyflwyno pob ymyriad y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Dylid ei ystyried yn fan cychwyn, a bydd angen i Tyfu Canolbarth Cymru a phartneriaid ei ddatblygu wedyn.

Datblygwyd yr ymyriadau hyn ar sail tystiolaeth fanwl o angen a chyfleoedd busnes a'r farchnad, sydd i'w gweld yn adroddiad Cam 1 yr astudiaeth hon. Mae'r ymyriadau'n cael eu categoreiddio yn y ffordd ganlynol:

**Llety**

- Datblygu darpariaeth gwestai mawr
- Cynnig enciliadau llesiant a gwestai sba moethus

**Y celfyddydau, diwylliant ac ysbrydegaeth**

- Cefnogi a hyrwyddo atyniadau twristiaeth ysbrydol
- Cymorth ar gyfer amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol lleol
- Datblygu cynigion diwylliannol blaenllaw

**Yr awyr agored a’r amgylchedd**

- Datblygu gweithgareddau twristiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr
- Darparu rhagor o seilwaith dehongli a chysgodi ar gyfer atyniadau
- Twristiaeth amgylcheddol
- Llwyfannau gwylio

**Digwyddiadau a bywiogrwydd**

- Datblygu ac amrywio'r calendr digwyddiadau
- Bywiogrwydd canol trefi

**Twristiaeth gorfforaethol**

- Datblygu pecynnau twristiaeth gorfforaethol

**Cyfleusterau Sylfaenol**

- Ardaloedd arfordirol a thraethau poblogaidd yn cael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw yn ddigonol
- Mynediad ar gyfer pobl anabl
- Darparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus

**Trafnidiaeth**

- Gwella'r rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio
- Cynyddu'r ddarpariaeth o fannau gwefru cerbydau trydan
- Darparu lleoedd ar gyfer cartrefi modur a faniau gwersylla
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwell ansawdd a chysylltedd y ffyrdd a chyfleusterau parcio ceir

**Adnoddau**

- Cyflogaeth a hyfforddiant mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth
- Hyfforddiant a chymorth i fusnesau

**Marchnata a hyrwyddo**

- Llwybr cynhyrchwyr bwyd a diod
- Helpu i ddatblygu rhwydwaith gwneuthurwyr celf a chrefft
- Creu brand ac ardystiad "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru"
- Marchnata Canolbarth Cymru

**Trefniadaeth a strwythur**

- Egluro'r strwythur trefniadol ar gyfer rheoli twristiaeth
- Datblygu adnodd rheoli twristiaeth sy'n cael ei arwain gan ddata

## Llety

| **Datblygu darpariaeth gwestai mawr**<br>Bydd gwestai mawr sy'n gallu darparu capasiti o ansawdd cyson yn galluogi grwpiau i deithio, a byddant yn gallu cynnal digwyddiadau a chynadleddau. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi ardaloedd blaenoriaeth lle byddai gwestai mawr yn cryfhau cynigion eraill. Dylent fod yn agos at leoliadau digwyddiadau mawr, clystyrau o atyniadau ac mewn hybiau twristiaeth allweddol. | Hirdymor | Efallai na fydd modd dod o hyd i weithredwyr addas sydd â diddordeb mewn datblygu'r cynnig gwestai yn y Canolbarth, hyd yn oed os ceir cyd-fuddsoddi, cymhellion, neu fathau eraill o gymorth.<br>Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio a chost gyflawni uchel iawn. Hefyd, mae yna risgiau sy'n gysylltiedig â'r galw gan ymwelwyr am y cynnig hwn a natur dymhorol y galw. | Bydd angen i ddatblygwyr a gweithredwyr gwestai ariannu, darparu a chynnal y gwestai.<br>Fodd bynnag, efallai y bydd modd cefnogi hyn trwy gyllid sy'n bodoli eisoes, cyllid newydd neu gynlluniau benthyca gan y sector cyhoeddus. | Rhaid gwneud | 15 |
| Nodi darparwyr gwestai presennol a darparwyr posibl, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu cyfleusterau y tu allan i'r Canolbarth ar hyn o bryd, a allai fod â diddordeb mewn datblygu cynigion yn y rhanbarth. Dylid cysylltu â'r gweithredwyr hyn er mwyn deall y rhwystrau presennol i fuddsoddi. | | | | | |
| Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu cymhelliant i ddatblygu gwestai yn y rhanbarth trwy gynlluniau sy'n lleihau'r risg sy'n deillio o fuddsoddiad ar gyfer gweithredwyr posibl. Archwilio'r cyfle ar gyfer benthyca trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, neu debyg. | | | | | |

**Cynnig enciliadau llesiant a gwestai sba moethus**

Datblygu darpariaeth llety a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant. Dylai hyn gynnwys sbâu, gwestai sba, ac enciliadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac ymlacio, gan dargedu cyplau ac ymwelwyr sy'n gwario llawer. Bydd hyn yn hyrwyddo twristiaeth sy'n seiliedig ar ddianc, ymlacio a heddwch. Byddai gwestai moethus sydd â llawer o gapasiti yn cefnogi'r cynnig ar gyfer digwyddiadau a thwristiaeth gorfforaethol trwy alluogi grwpiau mawr i aros mewn llety o ansawdd uchel. Bydd gwestai bach unigryw'n darparu ar gyfer grwpiau llai ac mae'n bosibl y byddant yn fwy addas ar gyfer trefi gwledig / bach, gan gynnig profiad mwy dilys o'r Canolbarth.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu cymhelliant i ddatblygu gwestai sba neu enciliadau yn y rhanbarth trwy gynlluniau sy'n lleihau'r risg sy'n deillio o fuddsoddiad ar gyfer gweithredwyr posibl. Archwilio'r cyfle ar gyfer benthyca trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, neu debyg, er mwyn darparu cymhelliant i ddatblygu gwestai sba. | Hirdymor | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio. Mae risgiau uchel yn gysylltiedig â'r gost gyflenwi uchel iawn.<br>Hefyd, mae yna risgiau posibl sy'n gysylltiedig â natur dymhorol y galw. | Bydd angen i sefydliadau'r sector preifat ddatblygu a gweithredu'r sbâu neu'r enciliadau. | Posibl | 16 |
| Nodi lleoliadau addas ar gyfer enciliadau sba. Gallant gynnwys lleoliadau arfordirol a choetiroedd. | | | | | |
| Llunio canllaw ar gyfer twristiaeth sy'n seiliedig ar lesiant ar gyfer darpar dwristiaid. Gallai'r canllaw gael ei gynhyrchu gan Croeso Cymru neu Twristiaeth Canolbarth Cymru, a dylai gynnwys pob cynnig sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â llesiant ac iechyd. | | | | | |

## Y celfyddydau, diwylliant ac ysbrydegaeth

| **Cefnogi a hyrwyddo atyniadau twristiaeth ysbrydol i dyfu twristiaeth ar sail dianc a heddwch.**<br>Datblygu twristiaeth pererindod trwy ddarparu seilwaith ategol ac archwilio cyfleoedd i sefydlu llwybrau pererindod newydd a phererindod afonydd. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi llwybrau pererindod sydd angen cyllid neu gymorth. Archwilio'r posibilrwydd o ddarparu cyllid a chymorth fel marchnata neu hyrwyddo i'r llwybrau sydd angen hynny. | Tymor canolig | Mae gan yr ymyriad hwn risg ganolig gan fod llawer o'r seilwaith angenrheidiol eisoes yn bodoli a bydd y costau'n gymharol isel.<br>Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am gyfraniad gan y sector preifat. | Dylai cymdeithasau perthnasol fel Ymddiriedolaeth Pererindodau Prydain a sefydliadau fel Guided Pilgrimage fod yn rhan o'r ddarpariaeth.<br>Bydd angen i bartneriaethau sydd â llety a darparwyr bwyd a diod sicrhau bod cynnig digonol ar gael ar hyd llwybrau pererindod. | Posibl | 11 |
| Helpu i ddatblygu seilwaith addas, gan gynnwys llety a bwyd a diod ar hyd y llwybrau hyn. Sicrhau bod arwyddion a gwybodaeth yn ddigonol ac yn briodol. | | | | | |
| Archwilio'r cyfle i helpu i ddatblygu llwybrau newydd (fel datblygiad arfaethedig llwybr newydd o Ferns yn Iwerddon i Dyddewi yn Sir Benfro). Sicrhau bod llefydd ysbrydol fel Ystrad-fflur wedi'u cysylltu â llwybrau pererindod. | | | | | |
| Archwilio'r opsiwn o ddatblygu portffolio o lwybrau pererindod sy'n seiliedig ar afonydd, gan adeiladu ar Bererindod Afon Teifi. | | | | | |

## ASTUDIAETH ACHOS: MAGNA VIA FRANCIGENA, SISILI, YR EIDAL

Mae'r Magna Via Francigena yn llwybr pererindota 187km ar droed, beic mynydd neu feic hybrid o amgylch ynys Sisili yn yr Eidal. Mae'n dilyn y llwybr hynafol rhwng Agrigento a Palermo a oedd yn cael ei ddefnyddio am filoedd o flynyddoedd gan bererinion a theithwyr.

Mae pererinion ac ymwelwyr yn cefnogi'r economi wledig ac yn galluogi llawer o gyfleusterau llety ac arlwyo bach lleol i fodoli. Mae lletygarwch pererinion traddodiadol ar gael mewn eglwysi a hosteli sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau dielw lle mae pobl yn talu trwy gyfrwng rhodd, a lle mae rhwydwaith o wirfoddolwyr yn rhoi cymorth i bererinion. Hefyd, mae dewisiadau llety preifat ar gael fel llety gwely a brecwast, hosteli ieuenctid, ffermdai a gwestai. Mae gan lwybr y Magna Via ei lythyr cyflwyno ei hun sy'n rhoi disgownt i bererinion mewn bwytai a hosteli. Mae pererinion yn casglu stampiau yn eu pasbortau ym mhob cam er mwyn dangos eu bod wedi cerdded o leiaf 100 km i gael eu dogfen dystiolaeth.

Gall ymwelwyr gael gwybod am y llwybr trwy dudalen we bwrpasol ac ap. Dim ond gweithredwyr teithiau ac asiantaethau teithio 'moesegol' sy'n cael darparu profiadau grŵp. Anogir partneriaid masnachol i ymuno ag "Aware Agents" a dewis prosiect sy'n foesegol gyfrifol a buddsoddi mewn ffordd ymwybodol er mwyn gwella'r Via.



<table>
<tr><td colspan="6">Cymorth ar gyfer amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol lleol<br>Helpu i ddatblygu atyniadau diwylliannol a chelfyddydol a chryfhau atyniadau mewn amgueddfeydd a sefydliadau celfyddydol lleol. Bydd cryfhau'r cynnig dan do yn cyfrannu at economi ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn hefyd.</td></tr>
<tr><th>Camau Gweithredu</th><th>Amserlen</th><th>Risgiau</th><th>Cyllido a Chyflawni</th><th>Blaenoriaeth</th><th>Cysondeb ag amcanion</th></tr>
<tr><td>Nodi atyniadau diwylliannol lleol sydd angen y gefnogaeth fwyaf.</td><td rowspan="3">Tymor byr</td><td rowspan="3">Mae risgiau’n gysylltiedig â rhoi gwelliannau i'r cynnig ar waith yn llwyddiannus.</td><td rowspan="3">Bydd y cynnig celfyddydau a diwylliannol yn cael eu datblygu gan sefydliadau perthnasol, a lle bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ariannol a buddsoddiad i wella atyniadau.<br>Mae'n bosibl y bydd modd gwneud cais am gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.</td><td rowspan="3">Rhaid gwneud</td><td rowspan="3">17</td></tr>
<tr><td>Hyrwyddo ardaloedd lle mae'r cynnig ar gyfer y celfyddydau’n cynyddu (e.e. Aberteifi, Machynlleth) a'u helpu i ddod yn safleoedd allweddol ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau. Cynnwys hyn yn y strategaeth farchnata ranbarthol.</td></tr>
<tr><td>Rhoi cymorth i atyniadau sy'n chwilio am gyllid, gan sicrhau bod sefydliadau'n deall y broses dan sylw ac yn gallu manteisio ar y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gyflwyno ceisiadau cryf.</td></tr>
</table>

| **Datblygu cynigion diwylliannol blaenllaw**<br>Nid oes gan y rhanbarth gynnig diwylliannol â statws a phroffil cenedlaethol ar hyn o bryd. Byddai datblygu atyniad o'r fath yn helpu i gydnabod cryfder y sector celfyddydau a diwylliant presennol yng Nghanolbarth Cymru, yn helpu i'w hyrwyddo'n ehangach, ac yn denu ymwelwyr newydd sydd â diddordeb yn y celfyddydau. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi lleoliad addas ar gyfer cynnig diwylliannol/celfyddydol blaenllaw i ddarparu atyniad ar raddfa ac â phroffil rhyngwladol.<br>Sefydlu cynllun ar gyfer darparu'r cynnig diwylliannol, gan gynnwys cynhyrchu cynllun busnes a dyluniad manwl. | Hirdymor | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio.<br>Mae risgiau uchel a chostau uchel iawn yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf mawr. | Bydd y cynnig yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol a / neu sefydliad diwylliannol mawr. | Dylid gwneud | 16 |

## ASTUDIAETH ACHOS: TURNER CONTEMPORARY, MARGATE, DU

Mae Turner Contemporary, a agorodd yn 2011, yn un o brif orielau celf gyfoes y DU. Mae'n cynnal rhaglen arddangos gydol y flwyddyn ac yn cynnig mynediad am ddim i brofiad creadigol a diwylliannol. Mae wedi ennill gwobrau am dwristiaeth ardderchog yn ne-ddwyrain y DU.

Cyn y pandemig, roedd yr oriel yn denu tua 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn, ac roedd yn un o brif atyniadau ymwelwyr Caint. Hefyd, mae'r oriel yn cael ei chydnabod yn eang fel catalydd i adfywio Dwyrain Caint.

Mae Margate wedi dod yn un o'r prif ganolfannau creadigol sy'n tyfu'n gyflym yn y DU. Mae'r oriel yn meithrin cysylltiadau ac yn datblygu rhwydweithiau rhwng artistiaid, gweithwyr celf proffesiynol, a sefydliadau sy'n ceisio cynyddu cyfleoedd cyd-gynhyrchu a hyrwyddo cymuned fwy creadigol a chysylltiedig.



## Twristiaeth Awyr Agored

<table>
<tr><td colspan="6">Datblygu gweithgareddau twristiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr<br>Defnyddio asedau dŵr rhagorol y Canolbarth yn fwy effeithiol ar gyfer chwaraeon dŵr a hamdden.</td></tr>
<tr><th>Camau Gweithredu</th><th>Amserlen</th><th>Risgiau</th><th>Cyllido a Chyflawni</th><th>Blaenoriaeth</th><th>Cysondeb ag amcanion</th></tr>
<tr><td>Nodi crynofeydd dŵr addas (ar yr arfordir ac ar y tir) y gellid eu defnyddio ar gyfer chwaraeon dŵr a nofio gwyllt (gan sicrhau bod ansawdd y dŵr yn caniatáu ymdrochi).</td><td rowspan="4">Tymor canolig</td><td rowspan="4">Mae risgiau'n gymharol isel oherwydd y galw sydd wedi'i ddangos am weithgareddau sy'n seiliedig ar ddŵr.<br>Bydd y risgiau a'r costau uchaf yn gysylltiedig â chreu'r seilwaith i gefnogi'r gweithgareddau hyn a sicrhau diogelwch cyfranogwyr.<br>Mae risgiau cyllid a chynllunio’n berthnasol i bob prosiect cyfalaf ar y raddfa hon.</td><td rowspan="4">Mae buddsoddiadau arfaethedig wedi'u cytuno eisoes er mwyn gwella profiad ymwelwyr yn Llyn Efyrnwy, Llyn Llandrindod, a Phromenâd Aberhonddu/Afon Wysg, wedi'u hariannu gan brosiect Y Pethau Pwysig.<br><br>Bydd angen i ddarparwyr gweithgareddau helpu i ddatblygu'r cynnig chwaraeon dŵr. Bydd crynofeydd dŵr yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac awdurdodau dŵr.<br><br>Mae sawl prosiect yn y cam datblygu ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru yn berthnasol yma, gan gynnwys prosiect Harbwrs Ceredigion, a buddsoddiad yng Nghwm Elan a Chamlas Maldwyn, mewn partneriaeth â Dŵr Cymru a Glandŵr Cymru.</td><td rowspan="4">Dylid gwneud</td><td rowspan="4">12</td></tr>
<tr><td>Cynllunio ar gyfer cyfleusterau ategol lle bo hynny'n briodol e.e. achubwyr bywyd ar draethau arfordirol poblogaidd, mynediad trwy docyn, cawodydd traeth, storio offer, cyfleusterau newid ac ati.</td></tr>
<tr><td>Nodi prif leoliad ar gyfer datblygu canolfan chwaraeon dŵr mewndirol. Nodi cyfleoedd ariannu posibl ar gyfer datblygu canolfan chwaraeon dŵr newydd a'r seilwaith ategol e.e. pontynau/rampiau.</td></tr>
<tr><td>Ystyried datblygu llwybr Ffyrdd Glas (yn debyg i'r hyn sydd wedi'i greu yn Iwerddon) ar lynnoedd, camlesi ac afonydd, ac ar eu glannau. Creu tudalen we i hyrwyddo'r llwybr a'r holl seilwaith ategol gan gynnwys darparwyr gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddŵr, cysylltu rhwydweithiau teithio llesol, bwyd a diod, a llety.</td></tr>
</table>

## ASTUDIAETH ACHOS: BLUEWAYS, IWERDDON

Mae Blueways yn gynnig twristiaeth a hamdden awyr agored newydd yn Iwerddon sy'n ceisio dathlu a hyrwyddo dyfrffyrdd mewndirol, llynnoedd, afonydd ac ardaloedd arfordirol hardd. Hefyd, mae'n ceisio annog mwy o bobl i brofi a mwynhau gweithgareddau awyr agored mewn lleoliadau dŵr, a chefnogi twristiaeth wledig.



Mae'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau padlo, beicio a cherdded ar lynnoedd, camlesi ac afonydd Iwerddon, ac ar eu glannau. Mae'r llwybr wedi'i gysylltu â darparwyr lleol chwaraeon dŵr a gweithgareddau dŵr, ac mae'n amlygu llefydd i fwyta, a gweithgareddau eraill.

Mae angen i fusnesau wneud cais i gynllun Achredu Blueway. Datblygwyd tri llwybr Blueway cyntaf y wlad gan Waterways Ireland ac awdurdodau lleol, ac maent bellach yn cael eu hystyried yn gyrchfannau gorau yn eu dosbarth ar gyfer gweithgareddau dŵr a ger y dŵr gan gynnwys hwylio, caiacio, bordhwylio, heicio, snorclo a mwy.

**Darparu rhagor o seilwaith dehongli[5] a chysgodi ar gyfer atyniadau awyr agored gwledig sy'n hwyluso ymweliadau gydol y flwyddyn ac yn ystod tywydd gwlyb.**
Bydd hyrwyddo ac arwyddion â ffocws ar-lein ac ar safleoedd yn gwneud i westeion deimlo'n fwy'n hyderus i archwilio'n ehangach.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi atyniadau sydd angen cyfleusterau cysgodi a dehongli. | Tymor byr | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio.<br>Bydd y costau darparu'n ganolig / isel. | Bydd atyniadau unigol yn gyfrifol am y ddarpariaeth gyda chymorth awdurdodau lleol.<br>Gall ymyriadau amrywio o gysgod syml i ganolfannau ymwelwyr.<br>Bydd y gost o ddarparu cysgod sylfaenol yn gymharol isel a bydd angen gwaith cynnal a chadw cost isel gan yr atyniad neu'r awdurdod lleol. Bydd dehongli'n costio mwy a bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw a diweddaru. Bydd angen mwy o fuddsoddiad o lawer ar ganolfannau ymwelwyr, a bydd costau cynnal a chadw a chostau gweithredu gan gynnwys staff yn uwch. | Rhaid gwneud | 10 |
| Nodi'r math o seilwaith cysgodi sydd ei angen.<br>Ar gyfer atyniadau mwy poblogaidd, efallai y bydd canolfannau ymwelwyr tywydd gwlyb sydd â chyfleusterau sylfaenol yn addas, gyda mwy o fannau cysgodi syml ar hyd a lled yr atyniad awyr agored.<br>Byddai cysgodfeydd syml mewn atyniadau llai poblogaidd yn ddigonol. | | | | | |
| Nodi'r math o ddehongliad sydd ei angen. Gall dehongliad fod yn ffisegol, yn ddigidol, neu wyneb yn wyneb (e.e. teithiau tywys gan warden). Mae'n debygol y bydd angen i'r dehongliad fod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac efallai y bydd angen ei gyflwyno mewn ieithoedd ychwanegol gan ddibynnu ar y galw gan dwristiaid rhyngwladol. | | | | | |
| Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dehongli digidol e.e. Realiti Estynedig mewn profiadau ymwelwyr – helpu ymwelwyr i ymgysylltu'n ddyfnach â phrofiadau ymwelwyr. | | | | | |

[5] Mae dehongli, yng nghyd-destun amgueddfa neu safle hanesyddol, yn cyfeirio at gyfleu gwybodaeth ffeithiol. Mae'n ymestyn y tu hwnt i fyrddau gwybodaeth, ac mae'n golygu profiad llawn yr ymwelydd gan hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o le penodol a'i gynnwys.

| **Twristiaeth amgylcheddol**<br>Datblygu'r cynnig ecodwristiaeth yn y Canolbarth i ddenu teithwyr ymwybodol a chyfrifol, gan fanteisio ar gynnig cryf gweithgareddau awyr agored a thirwedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi cynigion buddsoddi ar gyfer datblygu ecogabanau a mathau o lety sy'n amgylcheddol gynaliadwy. | Tymor canolig | Mae risgiau'n gymharol isel oherwydd y galw sydd wedi'i ddangos am ecodwristiaeth.<br>Fodd bynnag, mae yna risgiau sy'n gysylltiedig â dibynnu ar y sector preifat i ddarparu'r cynnig ecodwristiaeth. | Bydd angen i ddarparwyr gweithgareddau a llety twristiaeth roi'r cynnig ar waith. Byddai'r Cynghorau yn darparu cymhellion. | Posibl | 17 |
| Annog / cymell cynhyrchwyr bwyd a diod lleol i ddatblygu a hyrwyddo cynnig carbon isel/milltiroedd bwyd isel. | | | | | |
| Cynhyrchu adnoddau fel bod asiantaethau twristiaeth yn gallu lledaenu ymwybyddiaeth o'r angen am ddiogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth gan dwristiaid, gan annog ymwelwyr i "beidio â gadael dim ar ôl”. | | | | | |

**Llwyfannau gwylio**

Bydd creu llwyfannau gwylio’n helpu i wasgaru ymwelwyr ac yn cynorthwyo ymdrechion marchnata i hyrwyddo twristiaeth sy'n seiliedig ar dirweddau.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi lleoliadau addas ar gyfer llwyfannau gwylio e.e. ar safleoedd twristaidd allweddol gan gynnwys rhaeadrau a mannau uchel, er mwyn ceisio annog pobl i osgoi'r safleoedd mwyaf poblogaidd. Hefyd, gallai hyn gynnwys gwella hygyrchedd ar gyfer profiadau coetiroedd a gwlyptiroedd. | Tymor byr | Mae risgiau’n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio. Bydd y llwyfannau gwylio’n arwain at risg a chost gymharol isel. | Bydd angen i'r awdurdod lleol neu sefydliadau rheoli cyrchfannau ddarparu a chynnal a chadw'r llwyfannau. | Dylid gwneud | 9 |
| Nodi'r math o seilwaith addas sydd ei angen ar bob safle gwylio. Mae'n bosibl y bydd angen arwyddion hefyd, yn enwedig os yw'r cyfleuster yn canolbwyntio ar deithio llesol. | | | | | |
| Datblygu strategaeth gyfathrebu addas sy'n hysbysu darpar ymwelwyr am bresenoldeb a lleoliadau'r mannau gwylio hyn. | | | | | |

## Digwyddiadau a bywiogrwydd

**Datblygu ac amrywio'r calendr digwyddiadau**

Ymestyn y rhaglen ddigwyddiadau i gynnwys mwy o ddigwyddiadau amrywiol a sefydlu calendr o ddigwyddiadau gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r tymor rhwng y cyfnodau prysur a thawel.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystyried sut i gymell trefnu digwyddiadau, yn enwedig yn ystod y tymor tawel. | Tymor canolig | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio a'r ddibyniaeth ar alw gan drefnwyr digwyddiadau i gynnal digwyddiadau. | Bydd angen i drefnwyr digwyddiadau helpu i ariannu a chynnal digwyddiadau.<br>Bydd angen i awdurdodau lleol gefnogi a galluogi'r broses o drefnu mwy o ddigwyddiadau.<br>Bydd cynnal digwyddiadau y tu allan i hybiau twristiaeth yn dibynnu ar sicrhau bod seilwaith ehangach ar gael. | Dylid gwneud | 11 |
| Nodi safleoedd addas ar gyfer cynnal digwyddiadau, yn enwedig digwyddiadau mwy dan do. | | | | | |
| Helpu trefnwyr digwyddiadau i gynnal mwy o ddigwyddiadau, yn enwedig yn ystod y tymor tawel. Gallai hyn gynnwys datblygu cyfleusterau digwyddiadau dan do yn y Canolbarth. | | | | | |
| Datblygu calendr Digwyddiadau Canolbarth Cymru a nodi sianeli y gellir eu defnyddio i'w hyrwyddo. | | | | | |
| Darparu rhagor o gymorth a hyfforddiant ar gyfer trefnwyr digwyddiadau. Ar hyn o bryd, mae llawer o ddigwyddiadau'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr – gellid darparu cymorth ar sut i gynnal a thyfu digwyddiadau mewn ffordd ddiogel a chost-effeithiol. Dylai darparwyr a lleoliadau digwyddiadau presennol gydweithio i ddarparu gweithdai sgiliau a rhannu gwybodaeth ledled y sector. | | | | | |

| **Bywiogrwydd canol trefi**<br>Rhoi cymorth i ganol trefi a hyrwyddo bywiogrwydd er mwyn creu mwy o amser a gwariant gan ymwelwyr mewn trefi ledled y rhanbarth. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi canol trefi lle mae mwy o siopau gwag na'r cyfartaledd. | Tymor canolig | Mae risgiau’n gysylltiedig â thanseilio busnesau presennol y stryd fawr. | Bydd awdurdodau lleol yn darparu cymorth a mesurau mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector preifat.<br>Gweithio gyda chynghorau lleol a chymuned i ddarparu digwyddiadau a siopau dros dro.<br>Mae'n bosibl y bydd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Trawsnewid Trefi, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn addas. | Rhaid gwneud | 19 |
| Ystyried mesurau i lenwi siopau gwag yng nghanol trefi a chyfleoedd i ddefnyddio unedau manwerthu gwag fel rhan o'r cynnig twristiaeth e.e. digwyddiadau. | | | | | |
| Hwyluso cyflwyno cynigion dros dro a chynigion sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau mewn canol trefi llai prysur er mwyn helpu i ddenu trigolion yn ôl i'r stryd fawr. | | | | | |

## Twristiaeth Gorfforaethol

**Datblygu pecynnau twristiaeth gorfforaethol ac enciliadau corfforaethol ledled Canolbarth Cymru**

Er mwyn datblygu twristiaeth gorfforaethol, bydd angen llety a bwyd a diod o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau mawr, a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau a gweithgareddau hamdden.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Llunio strategaeth i hyrwyddo'r Canolbarth fel rhanbarth sy'n addas ar gyfer twristiaeth gorfforaethol, annog y sector preifat i ddatblygu ei gynnig, a chynyddu galw'r farchnad am dwristiaeth gorfforaethol.<br><br>Dylai'r strategaeth wahaniaethu rhwng enciliadau, cyfarfodydd a chynadleddau corfforaethol (sydd angen adnoddau sy'n canolbwyntio ar fusnes). | Tymor canolig | Mae risgiau'n gysylltiedig â dod o hyd i ddarparwyr yn y sector preifat sydd eu hangen i roi'r ddarpariaeth ar waith. | Bydd angen i weithredwyr teithiau neu ddarparwyr gweithgareddau ddarparu pecynnau twristiaeth gorfforaethol. Bydd angen creu partneriaeth gyda sefydliadau twristiaeth y sector preifat er mwyn datblygu'r cynigion. | Dylid gwneud | 11 |
| Nodi lleoliadau addas ar gyfer y gwahanol fathau o gynigion twristiaeth gorfforaethol. Dylid ystyried darparu gwestai mawr, mannau cyfarfod, cyfleusterau bwyd a diod a hamdden o ansawdd uchel (lle'n berthnasol). | | | | | |
| Llunio canllaw ar gyfer gweithgareddau a darparwyr twristiaeth gorfforaethol. Gallai Croeso Cymru neu Twristiaeth Canolbarth Cymru greu'r canllaw hwn. | | | | | |

## Cyfleusterau Sylfaenol

<table>
<tr><td colspan="6">Sicrhau bod ardaloedd arfordirol a thraethau poblogaidd yn cael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw’n ddigonol<br>Yng Ngheredigion, y traeth yw un o'r prif resymau pam mae pobl yn ymweld â'r ardal. Mae'n bwysig sicrhau eu bod o safon uchel a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda oherwydd yr effaith ar ganfyddiadau o'r rhanbarth.</td></tr>
<tr><th>Camau Gweithredu</th><th>Amserlen</th><th>Risgiau</th><th>Cyllido a Chyflawni</th><th>Blaenoriaeth</th><th>Cysondeb ag amcanion</th></tr>
<tr><td>Nodi traethau allweddol nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw na'u rheoli’n ddigonol, neu nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Gallai'r broses o wella ansawdd traethau gynnwys nifer o ystyriaethau megis ansawdd dŵr, cyfleusterau mynediad, dirywiad amgylcheddol, sbwriel, gwasanaethau achubwyr bywyd, a chyfleusterau cawodydd a newid ar y traeth.</td><td rowspan="3">Tymor byr</td><td rowspan="3">Mae yna berygl o ddyrannu gormod o adnoddau lle mae'r traethau eisoes yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.</td><td rowspan="3">Bydd y gwaith cynnal a chadw’n cael ei wneud gan yr awdurdod lleol perthnasol / Cyfoeth Naturiol Cymru, neu drwy sefydliadau partner cymunedol/elusennol.</td><td rowspan="3">Dylid gwneud</td><td rowspan="3">7</td></tr>
<tr><td>Cynyddu dyraniad adnoddau i wasanaethau ar gyfer rheoli a gwelliannau gweithredol er mwyn sicrhau traethau a dŵr o ansawdd uchel.</td></tr>
<tr><td>Ystyried ceisio sicrhau achrediad baner las ar gyfer mwy o draethau.</td></tr>
</table>

| **Mynediad ar gyfer pobl anabl**<br>Creu cynnig twristiaeth sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, waeth beth yw cyfyngiadau corfforol neu anableddau pobl. Mae hyn yn ymestyn i wella mynediad at fannau a phrofiadau awyr agored i'r rhai sydd ag anableddau, yn ogystal â mynediad at lety, hamdden, a gwasanaethau cyhoeddus. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi neu sefydlu canllawiau ac adnoddau ar gyfer twristiaeth yn benodol (e.e. 'Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru') er mwyn sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch. Annog pob busnes sy'n gysylltiedig â thwristiaeth i ddilyn a mabwysiadu'r canllawiau hyn. | Tymor canolig | Bydd angen cyfraniad y sector preifat.<br>Mae cost gymharol uchel yn gysylltiedig ag ôl-osod seilwaith, ond mae'r risg yn isel. | Bydd angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat uwchraddio neu ôl-osod eu seilwaith i ddarparu ar gyfer pobl ag anableddau amrywiol.<br>Sefydlu partneriaethau â chyrff perthnasol e.e. Anabledd Cymru. | Dylid gwneud | 4 |

| **Darparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus**<br>Sicrhau darpariaeth ddigonol o gyfleusterau sylfaenol fel toiledau cyhoeddus yng nghanol trefi a phentrefi ac mewn atyniadau ymwelwyr. Dylai hyn gynnwys toiledau Lleoedd Newid lle bo modd. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi lleoliadau (canol trefi, pentrefi ac atyniadau ymwelwyr) sydd angen cyfleusterau toiledau cyhoeddus newydd neu eu huwchraddio | Tymor canolig | Risg isel iawn a chost gymharol isel. | Dylai'r atyniad ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau mewn atyniadau ymwelwyr, a dylai'r awdurdod lleol ddarparu a chynnal a chadw atyniadau yng nghanol trefi. | Rhaid gwneud | 6 |

## Trafnidiaeth

| **Gwella'r rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio**<br>Rhaid cysylltu rhwydweithiau trafnidiaeth weithredol â hybiau twristiaeth, trefi, ac atyniadau diwylliannol a naturiol gwledig. Bydd llwybrau trafnidiaeth weithredol ag arwyddion diogel a chlir yn hwyluso'r gallu i archwilio'r ardal gyfagos ac yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy i'r atyniadau a ledled y rhanbarth. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi llwybrau cerdded rhanbarthol sydd angen eu gwella. Rhaid cynnal a chadw llwybrau cerdded yn dda a sicrhau eu bod yn cysylltu'n dda â mathau eraill o seilwaith trafnidiaeth.<br>Nodi llwybrau beicio sydd angen eu gwella. Bydd llwybrau beicio sydd ar wahân i'r prif ffyrdd, ac felly'n fwy hardd a diogel, yn annog beicio. Rhaid iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n dda a rhaid sicrhau eu bod wedi'u cysylltu'n dda â mathau eraill o seilwaith trafnidiaeth.<br>Nodi llwybrau newydd ar gyfer datblygu llwybrau beicio a cherdded strategol, gan gynnwys cylchoedd/llwybrau beicio pellter hir ochr yn ochr â llwybrau cerdded pellter hir diweddar.<br>Rhaid cysylltu rhwydweithiau trafnidiaeth weithredol â hybiau twristiaeth, trefi, ac atyniadau diwylliannol a naturiol gwledig.<br>Nodi safleoedd lle mae angen seilwaith ategol yn agos at y llwybrau hyn e.e. arwyddion, mannau cadw beiciau, siopau beiciau, beiciau electronig, mannau gwefru. | Tymor byr | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio.<br>Bydd risg yn gysylltiedig â sicrhau caniatâd a pherchnogaeth/hawliau tramwy os oes angen croesi tir preifat. | Bydd yr awdurdodau lleol neu Sustrans (ceidwaid y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) yn gyfrifol am y gwaith. Mae angen i ddarparwyr trafnidiaeth gydgysylltu er mwyn sicrhau bod llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth weithredol yn cael eu cysylltu.<br>Gallai partneriaid preifat fod yn rhan o'r gwaith o ddarparu cyfleusterau ategol e.e. siopau beiciau a rhentu beiciau.<br>Bydd angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar bob llwybr trafnidiaeth weithredol. Dylai llwybrau gael eu cynnwys mewn cyfundrefnau rheoli tir a chyfleusterau presennol. | Rhaid gwneud | 18 |

| **Cynyddu'r ddarpariaeth o fannau gwefru cerbydau trydan**<br>Bydd rhwydwaith o fannau gwefru'n hwyluso dulliau teithio carbon is gan drigolion ac ymwelwyr. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi lleoliadau penodol lle mae angen mannau gwefru. Dylent gael eu lleoli mewn prif hybiau, hybiau cyrchfan, a hybiau eilaidd, yn ogystal â mewn cyrchfannau ymwelwyr arwyddocaol.<br>Dylai nifer y lleoedd sy'n cael eu darparu fod yn gymesur â maint yr anheddiad a / neu boblogrwydd yr atyniad ymwelwyr gan sicrhau darpariaeth ddaearyddol ledled Canolbarth Cymru. | Tymor byr | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio ac argaeledd tir.<br>Bydd mynediad i'r grid yn risg hefyd.<br>Bydd y gost gyflenwi'n gost ganolig/uchel. | Mae buddsoddiad gan Trafnidiaeth Cymru eisoes ar waith i osod mannau gwefru cerbydau trydan yng Ngheredigion a Phowys.<br><br>Gan ddibynnu ar leoliad y cyfarpar gwefru, bydd angen i'r awdurdod lleol, yr atyniad ymwelwyr / cwmni preifat gynnal a chadw'r cyfarpar gwefru. | Rhaid gwneud | 12 |
| Nodi'r gofyniad a ragwelir ar gyfer cyfarpar gwefru yng Ngheredigion a Phowys (fel rhan o'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru) a sefydlu strategaeth i ateb y galw. | | | | | |
| Datblygu strategaeth gyfathrebu addas sy'n hysbysu darpar ymwelwyr am bresenoldeb a lleoliadau'r mannau gwefru hyn, gan weithio gyda phartner preifat o bosibl (e.e. Gwefru Dragon) neu sefydliad fel Croeso Cymru. | | | | | |

| **Darparu lleoedd parcio ar gyfer cartrefi modur a faniau gwersylla mewn trefi bach neu'n agos atynt**<br>Byddai lleoedd parcio ar gyfer cartrefi modur a faniau gwersylla'n cynyddu incwm mewn siopau a sefydliadau bwyd a diod lleol, yn lleihau parcio digroeso dros nos, ac yn helpu i wasgaru ymwelwyr ledled y rhanbarth. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi lleoliadau addas ar gyfer lleoedd parcio i gartrefi modur a faniau gwersylla. Dylent gael eu lleoli ger trefi bach ac yn agos at atyniadau naturiol a diwylliannol ledled y Canolbarth. Dylid sicrhau lledaeniad daearyddol addas ledled Powys a Cheredigion. | Tymor byr | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio. Bydd y gost o ddarparu'r lleoedd parcio'n isel a bydd y risg yn isel. | Byddant yn cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw gan awdurdodau lleol neu sefydliadau yn y sector preifat.<br><br>Mae'n bosibl y bydd cyllid prosiect Y Pethau Pwysig yn addas. | Dylid gwneud | 12 |
| Nodi'r gofynion ar gyfer seilwaith a dogfennau ategol fel arwyddion a gwybodaeth a gwaredu gwastraff. | | | | | |
| Datblygu strategaeth gyfathrebu addas sy'n hysbysu darpar ymwelwyr am bresenoldeb a lleoliadau'r lleoedd parcio hyn. Ystyried sut i farchnata'r rhwydwaith hwn o leoedd parcio i sicrhau ymwybyddiaeth a defnydd ohonynt. Sicrhau bod lleoedd parcio'n cael eu rhestru ar wefannau priodol, fel UK AIRE. | | | | | |

| **Gwella ansawdd a chysylltedd y ffyrdd a chyfleusterau parcio ceir**<br>Mynd ati'n rhagweithiol i reoli a darparu ar gyfer ymwelwyr sy'n cyrraedd mewn ceir – sef y mwyafrif llethol o hyd – trwy sicrhau bod ansawdd y ffyrdd yn ddigonol a lleihau'r effeithiau ar barcio yng nghanol trefi lleol. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Nodi'r ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael ac sy'n anaddas i draffig prysur sy'n cyfyngu ar ymweliadau ag atyniadau. Rhoi blaenoriaeth i atgyweirio llwybrau twristaidd allweddol lle bo modd.<br><br>Nodi safleoedd twristiaeth allweddol lle nad oes digon o gyfleusterau parcio ar hyn o bryd a lle mae angen cynyddu cyfleusterau parcio. Mae'n bosibl y bydd angen strategaethau parcio ar gyfer prif safleoedd twristiaeth.<br>Dylai pob maes parcio newydd gynnwys mannau gwefru cerbydau trydan (gweler uchod). | Tymor canolig | Mae risgiau'n gysylltiedig â'r angen am ganiatâd cynllunio ac argaeledd tir. Bydd gwaith ar y ffyrdd yn amharu ar y traffig.<br><br>Bydd y gwaith yn arwain at gostau canolig / uchel. | Bydd Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ffyrdd.<br>Bydd yr atyniadau'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau parcio ceir yn yr atyniadau ymwelwyr. | Rhaid gwneud | 9 |

**Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus**

Bydd gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn hwyluso symud ymwelwyr ledled y rhanbarth ac yn annog trafnidiaeth trwy ddulliau carbon is.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi'r bylchau a'r gwendidau presennol yn y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus trwy, e.e. ymgynghoriad cyhoeddus. Nodi atyniadau allweddol i ymwelwyr lle mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael. | Hirdymor | Mae yna gostau a risgiau uchel iawn yn gysylltiedig â darparu. | Bydd angen i ddarparwyr trafnidiaeth fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth a'r gwaith cynnal a chadw.<br>Mae'n debygol o gynnwys partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, prifysgolion yng Nghanolbarth Cymru, a chwmnïau preifat. | Rhaid gwneud | 14 |
| Ymchwilio i'r potensial ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth arloesol, sero-net a bysiau gwennol yn ôl ac ymlaen o atyniadau/trefi allweddol, y gellir talu amdanynt trwy docynnau teithio ymwelwyr a thrigolion. | | | | | |

## Adnoddau

**Cyflogaeth a hyfforddiant mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth**

Trwy sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant twristiaeth o safon, fel prentisiaethau, bydd modd recriwtio mwy o staff i'r diwydiant a goresgyn heriau prinder staff. Bydd cyflogaeth o ansawdd a chyfleoedd i uwchsgilio'n gwella'r gallu i gadw staff yn y sector ac yn sicrhau bod gweithio yn y sector yn cael ei ystyried yn ddewis gyrfa gwerth chweil.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystyried hyfywedd 'Cynllun Graddedigion Twristiaeth Canolbarth Cymru' gyda Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. | Hirdymor | Mae hwn yn ymyriad risg isel gan fod y bartneriaeth eisoes wedi'i sefydlu.<br><br>Mae'r risgiau'n gysylltiedig ag ansawdd hyfforddiant y cynnig a faint o bobl sy'n ymgymryd â'r cyrsiau.<br><br>Bydd yn bwysig gweithio gyda busnesau'r sector i ddeall beth yw'r anghenion a sut mae cyflogaeth a hyfforddiant yn gallu diwallu'r anghenion hynny. | Cydweithio rhwng Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a sefydliadau twristiaeth yn y sector preifat i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant gwerth uchel.<br>Bydd angen staff ychwanegol i roi'r ymyriad hwn ar waith.<br>Gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fod yn ffynhonnell gyllid addas. | Rhaid gwneud | 9 |
| Ymchwilio i ddulliau o gynhyrchu mwy o hyfforddiant traws-sectoraidd ar gyfer gweithwyr cyflogedig mewn busnesau ym meysydd twristiaeth a lletygarwch er mwyn helpu i gadw staff (e.e. cynlluniau cylchdroi lle mae unigolion yn gweithio i nifer o fusnesau twristiaeth/lletygarwch yn y rhanbarth dros gyfnod o amser). | | | | | |
| Nodi darparwyr hyfforddiant (e.e. Hyfforddiant Cambrian) sy'n gallu hyrwyddo a chreu prentisiaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth er mwyn recriwtio mwy o staff i'r diwydiant. | | | | | |
| Ymgynghori â sefydliadau academaidd ar sut i ddenu myfyrwyr i'r sector twristiaeth a dechrau ennill sgiliau perthnasol. | | | | | |
| Penodi Swyddog Twristiaeth Canolbarth Cymru er mwyn cydgysylltu a chyflwyno'r cynllun hwn ledled y rhanbarth. | | | | | |

**Hyfforddiant a chymorth i fusnesau**

Darparu hyfforddiant marchnata, cyllid, a rheoli ar gyfer BBaChau ym maes twristiaeth. Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y sector preifat yn y diwydiant twristiaeth a darparu cymorth i staff a chreu gyrfaoedd gwerth chweil yn y sector.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi ac ymgynghori â sefydliadau allweddol sydd eisoes yn darparu cymorth a hyfforddiant twristiaeth ar gyfer busnesau. Sefydlu'r camau nesaf ar gyfer sut y gellir gwella hyfforddiant i fusnesau, ei ddatblygu ymhellach, ac ymestyn y cyrhaeddiad. | Tymor byr | Mae'r risgiau'n gysylltiedig ag ansawdd hyfforddiant y cynnig a faint o bobl sy'n ymgymryd â'r cyrsiau.<br>Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant yn gymharol isel. | Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu trwy sefydliadau sydd eisoes yn bodoli fel Twristiaeth Canolbarth Cymru/MWT Cymru, neu / mewn cydweithrediad â chymdeithasau twristiaeth a / neu sefydliadau academaidd. | Rhaid gwneud | 11 |
| Datblygu adnoddau hyfforddi neu gyrsiau hyfforddi ar-lein mewn partneriaeth â chymdeithasau twristiaeth sydd eisoes yn bodoli a / neu sefydliadau academaidd. | | | | | |
| Sefydlu cynllun i hyrwyddo cyrsiau hyfforddi a defnyddio adnoddau. | | | | | |
| Annog busnesau i ymaelodi â sefydliadau sydd eisoes yn bodoli sy'n darparu cyngor ac arweiniad e.e. UK hospitality Wales. Ar lefel leol, dylid annog busnesau i sefydlu neu ymaelodi â grwpiau lleol. | | | | | |

## Marchnata a hyrwyddo

**Llwybr cynhyrchwyr bwyd a diod**

Bydd y broses o gysylltu cynhyrchwyr a bwytai ledled y rhanbarth trwy sefydlu llwybr, gyda digon o seilwaith ategol fel trafnidiaeth gyhoeddus a llety, yn helpu i wasgaru ymwelwyr a chefnogi busnesau bwyd a diod.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu rhwydwaith neu gronfa ddata helaeth o fusnesau bwyd a diod. Gellid defnyddio rhwydweithiau presennol e.e. Twristiaeth Canolbarth Cymru a/neu fforwm twristiaeth rhanbarthol, i ymgysylltu â sefydliadau bwyd a diod. | Tymor byr | Mae cost gymharol isel a risg isel yn gysylltiedig â chyflwyno'r llwybr. | Gallai Cymdeithasau Twristiaeth gyflwyno a chydgysylltu'r llwybr, mewn partneriaeth â busnesau'r sector preifat. | Posibl | 13 |
| Creu tudalen we sy'n canolbwyntio ar y llwybr bwyd a diod. Gallai cymdeithasau twristiaeth, e.e. Croeso Cymru neu Twristiaeth Canolbarth Cymru, gynnal neu hyrwyddo'r dudalen we llwybrau bwyd. | | | | | |
| Nodi cyfleoedd ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â bwyd a diod y gellir eu harchebu a theithiau tywys bwyd. | | | | | |
| Annog cynhyrchwyr bwyd i fabwysiadu'r brand "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru" (gweler isod) ar gyfer cynnyrch a nwyddau a gafodd eu gwneud yn y rhanbarth yn bennaf, er mwyn cyfrannu at frand cyrchfan sydd ag enw da am fwyd o ansawdd uchel. | | | | | |

## ASTUDIAETH ACHOS: LLWYBR BWYD SLIGO, IWERDDON

Lansiwyd llwybr bwyd Sligo yn 2016 fel platfform i hyrwyddo bwyd a diod ffres, lleol, iach y rhanbarth. Mae uchafbwyntiau bwyd y rhanbarth gan gynnwys bwytai a chynhyrchwyr yn cael eu hyrwyddo ar dudalen we bwrpasol. Hefyd, mae'n hyrwyddo profiadau bwyd a drefnir gan fusnesau bwyd a diod y rhanbarth a marchnadoedd a digwyddiadau bwyd wythnosol.




Mae'r llwybr yn gweithredu ar sail aelodaeth, ac mae'n rhaid i fusnesau dalu ffi i ymaelodi a bodloni meini prawf penodol. Mae ganddo bron i 40 o aelodau ar hyn o bryd. Mae busnesau sy'n aelodau'n elwa o ymddangos mewn ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a marchnata cenedlaethol. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu ac mae'n derbyn nawdd gan y sector preifat.

## ASTUDIAETH ACHOS: LLWYBR GWIN, YR ALMAEN

Mae'r llwybr gwin yn daith gerbyd hardd a’r hynaf yn y wlad. Mae'r llwybr 85km yn mynd trwy Palatinate Rhineland, rhanbarth mwyaf ond un yr Almaen lle tyfir gwinwydd. Mae'n cynnwys siopau gwin, ystafelloedd blasu, a llawer o wyliau gwin lleol. Mae tudalen we bwrpasol y llwybr yn rhoi sylw i fusnesau bwyd a diod gan gynnwys gwindai a thafarndai gwin, llety (mae llawer o windai’n cynnig gwely a brecwast), llefydd o ddiddordeb, a gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

Hefyd, mae modd beicio ar hyd y llwybr, ac mae teithiau beic yn cael eu cynnig.



| **Helpu i ddatblygu rhwydwaith gwneuthurwyr celf a chrefft**<br>Bydd cysylltu cynhyrchwyr celf a chrefft ledled y rhanbarth trwy gyfrwng llwybr, gyda digon o seilwaith ategol fel trafnidiaeth gyhoeddus a llety, yn helpu i wasgaru ymwelwyr, cefnogi busnesau celf a chrefft ac annog trosglwyddo gwybodaeth. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Datblygu rhwydwaith neu gronfa ddata helaeth o gynhyrchwyr celf a chrefft. Gellid defnyddio rhwydweithiau presennol e.e. Twristiaeth Canolbarth Cymru a/neu fforwm twristiaeth rhanbarthol, i ymgysylltu â chynhyrchwyr celf a chrefft. | Tymor byr | Mae cost gymharol isel a risg isel yn gysylltiedig â chyflwyno'r llwybr. | Gallai Cymdeithasau Twristiaeth ddarparu a chydgysylltu'r llwybr, mewn partneriaeth â busnesau'r sector preifat. | Posibl | 14 |
| Darparu hyfforddiant a chymorth penodol er mwyn helpu cynhyrchwyr celf a chrefft i ddatblygu clystyrau a llwybrau rhwydweithio a chrefftwyr arbenigol (e.e. creu gemwaith yn Nhregaron a'r llwybr tecstilau ar hyd dyffryn Teifi). | | | | | |
| Creu tudalen we sy'n canolbwyntio ar y llwybr cynhyrchwyr celf a chrefft. Gallai cymdeithasau twristiaeth, e.e. Croeso Cymru neu Twristiaeth Canolbarth Cymru, gynnal neu hyrwyddo tudalen we'r llwybr cynhyrchwyr celf a chrefft. | | | | | |
| Annog gwneuthurwyr celf a chrefft i fabwysiadu'r ardystiad "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru". | | | | | |

**Creu brand ac ardystiad "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru"**

Bydd creu "brand Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru" hawdd ei adnabod yn cynyddu gwariant lleol, yn codi proffil y rhanbarth, yn cefnogi busnesau lleol, ac yn helpu i annog cadwyni cyflenwi lleol.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi'r sefydliad neu'r grŵp addas i ddatblygu'r ymyriad hwn.<br>Gweithio gyda Menter Mynyddoedd Cambria (ymysg eraill) i sicrhau cysondeb ac ehangu'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes yn y maes hwn, yn hytrach na dyblygu gwaith. | Tymor byr | Mae cost y gwaith yn gymharol isel a lefel y risg yn isel.<br>Mae'r risgiau'n cynnwys diffyg defnyddio a manteisio ar y brand. | Darperir gan Gynghorau Sir a / neu sefydliadau rheoli cyrchfannau, a / neu sefydliadau rheoli twristiaeth (e.e. Croeso Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru).<br>Bydd angen sicrhau cyfraniad busnesau'r sector preifat, yn enwedig cynhyrchwyr Bwyd a Diod a chynhyrchwyr crefftau. | Posibl | 12 |
| Creu dogfen ganllaw ar yr ardystiad "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru". Defnyddio ymgynghoriadau ac adborth y sector preifat i lywio'r ddogfen. Gall model aelodaeth ar gyfer ardystio fod yn briodol i sicrhau ansawdd y cynhyrchion. | | | | | |
| Defnyddio brandio "Gwnaed yng Nghanolbarth Cymru" ar gyfer cynhyrchion lleol (e.e. bwyd a diod, crefftau lleol, gweithgynhyrchu), ac annog busnesau lleol i fabwysiadu'r brand. | | | | | |

**Marchnata a hunaniaeth Canolbarth Cymru**

Sicrhau a chynnal agwedd unedig at farchnata a hunaniaeth yng Nghanolbarth Cymru sy'n adlewyrchu'r Genhadaeth, y Gwerthoedd, a'r Amcanion (gweler adran 4). Mae angen cymryd gofal wrth roi mentrau marchnata lleol ar waith er mwyn sicrhau bod marchnata'n ystyrlon ar draws sawl haen o negeseuon.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Egluro haenau negeseuon presennol ar y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol, y sefydliadau perthnasol, a'r themâu a'r lleoedd sy'n cael eu hyrwyddo.<br>Sefydlu gweithgor marchnata sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r lefel genedlaethol (Croeso Cymru), rhanbarthol, a lleol, er mwyn helpu i greu negeseuon unedig ym meysydd cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus.<br>Sicrhau bod straeon yn cael eu hadrodd mewn ffordd ystyrlon ac ategol, a bod negeseuon lleol a rhanbarthol yn cyd-fynd â gwaith sydd wedi'i wneud ar lefel genedlaethol gan Croeso Cymru ymysg eraill. | Hirdymor (parhaus) | Mae yna risg na fydd busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn mabwysiadu ac yn adlewyrchu gwerthoedd y brand marchnata.<br>Mae cost ganolig yn gysylltiedig â chynhyrchu a chyflwyno strategaeth farchnata newydd. | Arweinir y gwaith gan Croeso Cymru a'r Gweithgor Marchnata, a bydd yn cynnwys Cynghorau Sir a sefydliadau rheoli twristiaeth (e.e. Croeso Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru).<br><br>Bydd llawer o'r cynnwys yn cael ei ddarparu, maes o law, gan fusnesau a sefydliadau twristiaeth ledled y rhanbarth.<br><br>Bydd partneriaethau a chyfranogiad sefydliadau rheoli cyrchfannau'n bwysig. | Rhaid gwneud | 13 |
| Rhoi strategaeth ar waith i hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o hunaniaeth a chanllawiau presennol y brand ar gyfer Canolbarth Cymru y dylai pob sefydliad a busnes ei defnyddio. Byddai hyn yn cynorthwyo sefydliadau gyda'u gwaith hysbysebu, marchnata digidol, creu cynnwys, hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymgysylltu â'r gymuned. | | | | | |
| Sicrhau bod hunaniaeth yn cael ei hadlewyrchu mewn seilwaith twristiaeth, y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau twristiaeth, deunyddiau hyrwyddo, gwybodaeth am lwybrau, ac arwyddion fel y bo'n briodol. | | | | | |

## Trefniadaeth a strwythur

| **Egluro'r strwythur trefniadol ar gyfer rheoli twristiaeth**<br>Darparu eglurder ynghylch y sefydliadau rheoli twristiaeth amrywiol yng Nghanolbarth Cymru a'u rolau a'u cyfrifoldebau, a gwella strwythurau ar gyfer gweithio ar y cyd. Symleiddio'r broses o gaffael cymorth a chefnogaeth ar gyfer busnesau ac unigolion yn y sector. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau** | **Cyllido a Chyflawni** | **Blaenoriaeth** | **Cysondeb ag amcanion** |
| Llunio map o'r holl sefydliadau presennol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n gweithio ym maes Twristiaeth, eu rolau a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i weithredwyr yn y Sector Twristiaeth. Nodi'r potensial i symleiddio. | Hirdymor | Mae'r risgiau'n cynnwys ailstrwythuro sefydliad twristiaeth perthnasol a newidiadau posib i staff. | Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan sefydliadau rheoli twristiaeth (e.e. Croeso Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru) a'r Cynghorau Sir. | Dylid gwneud | 5 |
| Sefydlu un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau bod busnesau twristiaeth yn gallu derbyn cefnogaeth, a defnyddio'r pwynt cyswllt hwn er mwyn cyfeirio neu argymell y cymorth priodol. | | | | | |
| Nodi prosiect peilot, neu nifer fach o brosiectau peilot, i dreialu gwaith partneriaeth rhwng detholiad o sefydliadau twristiaeth. Gellid nodi prosiectau peilot o'r rhestr o ymyriadau yn y ddogfen hon.<br><br>Rhoi sylw penodol i'r broses o weithio mewn partneriaeth drwy gydol y prosiect(au) peilot. Dysgu o'r profiad(au) i wella strwythurau a phrosesau trefniadol er mwyn sicrhau bod partneriaid yn gallu cydweithio'n well ac yn fwy effeithiol wrth symud ymlaen. | | | | | |

## ASTUDIAETH ACHOS – SAFLE TREFTADAETH Y BYD UNESCO, GREENWICH

Mae Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Maritime Greenwich yn cael ei weithredu a'i reoli gan dri phrif sefydliad partner - Hen Goleg y Llynges Frenhinol (ORNC), Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich (RMG) a Phrifysgol Greenwich (UoG), ac mae pob un ohonynt yn berchen ar asedau gwahanol, yn meddu ar amcanion cyffredinol gwahanol, ac yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i ddarparu eu gweithgareddau. Am flynyddoedd lawer, roedd y broses o reoli'r gyrchfan dwristiaeth hon o bwys rhyngwladol yn Llundain yn ddigyswllt, ac roedd y tri phartner yn ymgymryd â'u prosiectau a'u hagendâu eu hunain ar wahân, gan greu tensiynau a chymhlethdodau. O ganlyniad, roeddent yn methu â sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y sefydliadau neu'r ymwelwyr.





Yn dilyn blynyddoedd lawer o weithio gyda'r partneriaid yn unigol, comisiynwyd Fourth Street yn 2019 i ymchwilio i sut y gallai'r tri sefydliad gydweithio'n well a datblygu eu diddordeb cyffredin ym Mhartneriaeth Treftadaeth y Byd Maritime Greenwich. Llwyddodd ein gwaith i nodi nifer fach o fentrau peilot cyffredin y gallai'r partneriaid weithio arnynt gyda'i gilydd, a oedd yn fentrau brys ond yn gymharol fach o ran graddfa er mwyn sicrhau bod modd eu cyflawni ar unwaith. Roedd y prosiectau peilot hyn yn gyfle i'r partneriaid ddeall ei gilydd yn well, ac ar yr un pryd roeddent yn dangos sut y gellid strwythuro'r bartneriaeth yn well wrth symud ymlaen.

Byddai dull gweithredu o'r fath yn ddefnyddiol yng nghyd-destun Twristiaeth Canolbarth Cymru, lle mae nifer o brosiectau blaenoriaeth ac amrywiaeth eang o sefydliadau partner. Trwy nodi nifer llai o brosiectau peilot, a'r partneriaid sydd eu hangen i'w darparu, bydd modd gwneud cynnydd cyflym tuag at gyflawni nodau'r cynllun hwn a chynnwys amrywiaeth o sefydliadau yn y gwaith o sicrhau cynnydd. Hefyd, bydd yn helpu i nodi gwelliannau i brosesau a chysylltiadau a strwythurau sefydliadol ar gyfer y dyfodol.

**Datblygu adnodd rheoli twristiaeth sy'n cael ei arwain gan ddata**

Byddai adnoddau sy'n cael eu harwain gan ddata digidol yn helpu i wasgaru ymwelwyr ac annog ymwelwyr i archwilio lleoedd gwahanol. Byddent yn helpu i atal tagfeydd mewn mannau poblogaidd i dwristiaid a lleihau problemau sy'n gysylltiedig â gormod o dwristiaid yn ymweld â safleoedd poblogaidd. Er mwyn datblygu cynnig i ymwelwyr sy'n canolbwyntio ar heddwch a'r awyr agored, mae'n bwysig denu ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd prysur.

| Camau Gweithredu | Amserlen | Risgiau | Cyllido a Chyflawni | Blaenoriaeth | Cysondeb ag amcanion |
|---|---|---|---|---|---|
| Helpu i ddatblygu adnoddau rheoli twristiaeth sy'n cael eu harwain gan ddata. Gallai'r adnoddau hyn fod yn seiliedig ar ap digidol a chynnwys synwyryddion i ganfod pa mor brysur yw ardaloedd allweddol.<br>Er enghraifft, gellid defnyddio adnodd digidol i ddangos data 'prysurdeb' byw, gan ganiatáu i ymwelwyr reoli eu hymweliad ac efallai dewis mannau tawelach. Gellid ei ddefnyddio hefyd i hysbysu awdurdodau'r cyngor am yr angen am wasanaethau e.e. gwagio biniau, cau maes parcio, cyfeirio pobl at safleoedd eraill. Ceir enghreifftiau o hyn yn yr Alban. | Tymor canolig | Mae gan yr ymyriad hwn gost ganolig. Mae'r prif gostau'n gysylltiedig â gosod synwyryddion a datblygu'r system.<br>Mae risgiau'n gysylltiedig â dod o hyd i'r partner cyflenwi cywir. | Bydd yr adnodd yn debygol o gael ei ddarparu ar lefel Cyngor Sir.<br>Cynnwys cwmni preifat i ddatblygu adnodd digidol. | Dylid gwneud | 13 |
| Ystyried sut mae'r ymyriad hwn yn gallu cyd-fynd â Phrosiect Trefi Digidol Powys, gan gynnwys buddsoddiad mewn WiFi a thechnoleg cyfrif nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi.<br>Gallai'r ymyriad hwn gysylltu ag adnoddau digidol ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan, ymhlith eraill. | | | | | |

**ASTUDIAETH ACHOS: ADNODDAU DIGIDOL A ARWEINIR GAN DDATA, YR ALBAN**

Mae gan yr Alban gyfres o raglenni digidol a rhaglenni data i reoli twristiaeth.

**Sky**: Mae synwyryddion yn cael eu defnyddio i ddangos pa mor brysur yw rhai ardaloedd a rhoi gwybod i Gyngor yr Ucheldir am yr angen posib i wagio biniau, cau maes parcio neu gyfeirio pobl at safleoedd eraill trwy'r cyfryngau cymdeithasol, arwyddion neu staff y cyngor.

**Dwyrain Lothia:** Mae ap yn defnyddio data o synwyryddion ym meysydd parcio'r traethau er mwyn mesur y 'prysurdeb'. Mae modd i ymwelwyr weld y wybodaeth wedyn.

**Ap North Coast 500**: Mae'r ap yn hyrwyddo ymweliadau â mannau llai poblogaidd ar y llwybr, yn ogystal â llefydd mwy poblogaidd sy'n gallu mynd yn orlawn.

Mae **Travel tech for Scotland** yn gymuned o sefydliadau traveltech:

- **Fuse Mobility**: Mae'n helpu ymwelwyr â Loch Lomond a Pharc Cenedlaethol Trossachs i ddewis y llwybr mwyaf gwyrdd iddynt trwy ddarparu gwybodaeth am gost garbon eu taith.
- **Electrek Explorer**: Mae'n mapio'r holl fannau gwefru cerbydau trydan yn yr Alban ac yn curadu llwybrau i ymweld â nhw rhwng y mannau hyn, gan ystyried ffactorau fel tymheredd oer sy'n gallu lleihau oes batri cerbydau trydan.

Mae prosiect ar y gweill fel rhan o raglen cyflymu digidol CivTech i leihau'r gorlenwi yn y Parc Cenedlaethol. Bydd yn cynnwys cyfres o synwyryddion – mewn meysydd parcio, ar ffyrdd ac mewn canolfannau ymwelwyr – sy'n cofnodi'n ddienw pa mor brysur yw lle penodol. Bydd y data hwn ar gael ar gyfer ap i dwristiaid, yn ogystal ag ar gyfer byrddau negeseuon amrywiol ar ochrau ffyrdd.






# 6 Monitro a Gwerthuso

Bydd yn bwysig mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y cynllun hwn dros y blynyddoedd nesaf, a chofnodi effaith yr ymyriadau ar y weledigaeth a'r amcanion a amlinellir yma.

I wneud hyn, rydym yn awgrymu defnyddio fframwaith arfarnu syml. Mae angen cytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ceisio mesur cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion allweddol, ac sy'n gallu helpu i flaenoriaethu mathau penodol o ymddygiad neu ganlyniadau.

Hefyd, mae gwerthuso a monitro gweithgareddau'n barhaus yn gallu helpu i ddangos effaith wrth wneud cais am arian yn y dyfodol, ac osgoi'r angen am gasglu data a thystiolaeth ychwanegol o bryd i'w gilydd.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng defnyddioldeb y data a'r amser sydd ei angen i'w gasglu a'i ddadansoddi. Bydd set o fetrigau sy'n feichus i'w chasglu yn debygol o achosi gwallau neu arwain at dimau'n cael eu tynnu oddi wrth waith pwysicach. Felly, mae angen rhoi blaenoriaeth i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n hawdd i'w mesur, a dylai'r rhain fod yn rhan o adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol chwarterol sy'n cael ei lunio a'i rannu â phobl berthnasol wrth symud ymlaen.

Un cwestiwn pwysig yw pwy fydd yn berchen ar y fframwaith monitro hwn a phwy fydd yn gyfrifol amdano. Mae gan y cwestiwn hwn gysylltiad amlwg â gofynion adnoddau ehangach yn ymwneud â'r camau gweithredu a nodir yn yr Astudiaeth Twristiaeth hon.

Nodir awgrym isod ar gyfer y mathau o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a allai fod yn sylfaen i'r fframwaith arfarnu isod, a dylid ei gwblhau a'i gytuno gan Dîm y Prosiect:

**Twf cynaliadwy twristiaeth adfywiol**

- Hyd ymweliadau a chyfradd ymweliadau mynych
- Boddhad bywyd a hapusrwydd trigolion
- Cyfradd boddhad ymwelwyr

**Gwasgariad ymweliadau, ac economi ymwelwyr gydol y flwyddyn**

- Cyfradd meddiannaeth gwestai rhanbarthol ledled Canolbarth Cymru
- Cyfradd meddiannaeth gwestai rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn
- Cyfradd boddhad ymwelwyr
- Defnydd o wefannau (e.e. Croeso Cymru) drwy gydol y flwyddyn
- Nifer y digwyddiadau blynyddol/diwrnodau digwyddiadau a gynhelir yn y Canolbarth

**Creu clystyrau o gynigion**

- Hyd ymweliadau
- Gwariant ymwelwyr
- Cyfradd y busnesau sy'n cychwyn ac yn rhoi'r gorau iddi

**Seilwaith addas i ymwelwyr**

- Cyfradd boddhad ymwelwyr

**Partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector**

- Partneriaethau newydd wedi'u creu'n ffurfiol
- Cyfradd y busnesau sy'n cychwyn ac yn rhoi'r gorau iddi

**Cyflogaeth a hyfforddiant ystyrlon, diogel**

- Cyflogaeth ym maes twristiaeth yn y Canolbarth
- Nifer y rhai sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi a sgiliau
- Cyfradd y rhai sy'n aros i ddilyn gyrfa
- Nifer y myfyrwyr ar gyrsiau AB/AU sy'n gysylltiedig â'r sector

**Diogelu'r amgylchedd**

- Teithiau car yn y Canolbarth mewn safleoedd allweddol
- Defnydd a refeniw trafnidiaeth gyhoeddus
- Boddhad bywyd a hapusrwydd trigolion
- Cyfradd boddhad ymwelwyr
- Cwantwm o ofod naturiol wedi'i ddiogelu neu ei wella

Gellir mesur y metrigau hyn yn uniongyrchol (h.y. trwy arsylwi), trwy ddadansoddi data neu thrwy brosesau sy'n cael eu cwblhau ar y lefel ranbarthol eisoes, neu drwy arolygon cyfnodol (digidol neu wyneb yn wyneb) sy'n cael eu rhoi i ymwelwyr a thrigolion.

Ar gyfer y metrigau sy'n cael eu dewis, argymhellir bod angen cwblhau mesuriad llinell sylfaen cyn gynted â phosibl, a bod pob un ohonynt yn cael eu monitro'n rheolaidd wrth symud ymlaen.

*Mae'r holl wybodaeth, dadansoddiadau ac argymhellion a roddir i gleientiaid gan Fourth Street yn cael eu gwneud yn ddidwyll, ac maent yn cynrychioli barn broffesiynol Fourth Street ar sail gwybodaeth a gafwyd gan y cleient a ffynonellau eraill yn ystod yr aseiniad. Fodd bynnag, gan fod cyflawni argymhellion, rhagolygon a phrisiadau'n dibynnu ar ffactorau y tu allan i reolaeth Fourth Street, ni ellir ystyried bod unrhyw ddatganiad a wneir gan Fourth Street mewn unrhyw amgylchiadau yn sylw, yn ymrwymiad neu'n warant, ac ni all Fourth Street dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os yw datganiadau o'r fath yn anghywir neu'n seiliedig ar ragdybiaethau anghywir. Yn benodol, a heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd yr hyn a grybwyllwyd eisoes, unig fwriad unrhyw amcanestyniadau, ariannol ac fel arall, yn yr adroddiad hwn yw rhoi syniad o bwyntiau penodol dadl ac nid ydynt yn gyfystyr â rhagolygon o berfformiad gwirioneddol.*